Adroddiad a Datganiadau Ariannol
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2022

CYNNWYS **Rhif y dudalen**

Adroddiad Strategol y Corff Llywodraethu	2
Datganiad ynghylch Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol	14
Datganiad y Corff Llywodraethu ar reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfiaeth y Sefydliad â thelerau ac amodau ariannu'r Corff Ariannu	19
Datganiad ynghylch Cyfrifoldebau Aelodau Cyngor y Sefydliad	20
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i'r Cyngor	22
Datganiad o Incwm Cynhwysfawr	25
Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn	26
Y Fantolen ar 31 Gorffennaf 2022	27
Datganiad o Lifoedd Arian	28
Nodiadau i'r Cyfrifon a Pholisïau Cyfrifyddu	29

Adroddiad Strategol

1. NATUR, AMCANION A STRATEGAETHAU

Mae'r Cyngor yn cyflwyno ei adroddiad a'r datganiadau ariannol wedi'u harchwilio am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2022.

Gyda hanes o ddarparu addysg o safon dros gyfnod o 100 mlynedd, mae Addysg Oedolion Cymru (AOC), y Coleg Cymunedol Cenedlaethol, yn gwasanaethu poblogaeth oedolion Cymru trwy roi cyfleoedd ysbrydoledig, sy'n newid bywyd iddynt.

Gan fanteisio ar ein partneriaethau cryf, mae ein gweledigaeth yn golygu ein bod ar flaen y gad ar gyfer twf mewn dysgu gydol oes, gan flaenoriaethu cyfleoedd ar gyfer y rheiny sydd anoddaf eu cyrraedd, grymuso a gwella sgiliau pobl a sicrhau mynediad cyfartal at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi mentrau iechyd a lles fel ei gilydd, datblygu cymunedau cryf a gwydn a hyrwyddo democratiaeth weithredol.

Mae pandemig Covid-19 wedi creu llawer o heriau yn 2021, ac er y bu tarfu a gostyngiad o ran cyflwyno'r cwricwlwm, rydym wedi cydio yn y cyfleoedd a roddwyd i ni i gynyddu ein cynnig digidol. Roedd hyn yn golygu newid sylweddol i ddarpariaeth ar-lein ac wrth i gyfyngiadau gael eu codi yn ystod 2022, roeddem yn gallu dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb gyda 80% o'n darpariaeth bellach ar waith ar draws lleoliadau cymunedol.

Ochr yn ochr â hyn, rydym yn gweithio o fewn amgylchedd economaidd heriol yn barhaus yr effeithiwyd yn fawr arno gan y Gwrthdaro yn yr Wcrain a'r Argyfwng Costau Byw, lle mae dibyniaeth ar arian cyhoeddus yn unig yn ansicr. Mae'r farchnad lafur yn newid yn gyflym yng Nghymru ac mae angen i bobl ddysgu sgiliau newydd, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â thechnolegau digidol. Mae'r dirwedd yn gofyn i ni weithio ar y cyd a dangos effeithlonrwydd busnes deallus er mwyn ehangu ein cyrhaeddiad a hyrwyddo gwerth dysgu oedolion yn y gymuned. Galluogi'r tlawd sy'n gweithio i wella eu sgiliau yw ein hangerdd a'n blaenoriaeth, yn ogystal â helpu i fynd i'r afael â materion tlodi ehangach, megis diweithdra a digartrefedd.

Mae'n hanfodol meithrin y sgil dysgu dros oes er mwyn sicrhau gweithluoedd a chymunedau gwybodus, hyblyg, deallus ac iach. Bydd manteision economaidd, cymdeithasol a dinesig datblygu cymdeithas ddysgu gydol oes wirioneddol yng Nghymru yn ddifrifol; gan roi inni'r blaengaredd sydd ei angen arnom er mwyn i'n cymunedau fod yn wydn, i'n heconomi addasu i amgylchiadau sy'n newid ac i'n democratiaeth ffynnu.

Bydd ein cynllun strategol 3 blynedd newydd (2023-2026) yn canolbwyntio ar gefnogi a galluogi'r ystod ehangaf o ddysgwyr i gyflawni llwyddiant wrth ddatblygu a chynnal perthnasoedd presennol a datblygu rhai newydd. Mae ein gwaith i ddatblygu ein safle fel y prif ddarparwr dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru a chael ein cydnabod yn genedlaethol fel y darparwr Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) o ddewis yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

1.1 Statws cyfreithiol

Mae Addysg Oedolion Cymru (AOC), gynt WEA YMCA CC Cymru, yn elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif 1071234) ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif 3109524). Crëwyd y Sefydliad yn sgil uno WEA Cymru a Choleg Cymunedol YMCA Cymru ar 1af Awst 2015.

1.2 Pwrpas

Mae'r Erthyglau Cymdeithasu yn datgan mai amcan y Sefydliad yw 'hyrwyddo addysg, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc ac oedolion, yng Nghymru', ac mae'n cyflawni'r pwrpas hwn gan feddwl am fudd y cyhoedd.

1.3 Gweledigaeth a Datganiad Cenhadaeth

Ein Gweledigaeth:
Cynyddu effaith gymdeithasol, economaidd a phersonol dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru trwy gydlynu a datblygu partneriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; sicrhau mynediad cyfartal at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Ein Cenhadaeth:
Darparu cyfleoedd dysgu ysbrydoledig ar gyfer oedolion sydd anoddaf eu cyrraedd mewn cymunedau a gweithleoedd ledled Cymru; grymuso pobl i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth i gyflawni eu llawn botensial a helpu i adeiladu cymunedau gwydn a chryf trwy ddinasyddiaeth weithgar a dysgu democrataidd.

Ein Nodau:

1. **Addysgu a dysgu rhagorol:**

    - Cyflwyno rhaglenni dysgu o'r ansawdd gorau, gan flaenoriaethu'r rheiny sydd anoddaf eu cyrraedd, a darparu mynediad cyfartal at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg
    - Hyrwyddo a chefnogi addysgu ysbrydoledig, gan sicrhau bod dysgwyr yn cyflawni eu llawn botensial
    - Buddsoddi mewn technolegau digidol, a'u datblygu, i ysbrydoli a chreu arferion addysgu arloesol
    - Cyflwyno gwasanaethau cymorth rhagorol, gan sicrhau bod dysgwyr yn cael y cymorth a'r cyfarwyddyd sydd ei angen ar gyfer dilyniant pellach.

2. **Codi proffil a phwysigrwydd dysgu oedolion yn y gymuned**

    - Sicrhau bod arweinyddiaeth a llywodraethu gweithredol ar waith, sy'n hyrwyddo dysgu oedolion yn y gymuned ac yn ein herio i wella'n barhaus
    - Hyrwyddo ein gwerthoedd a'n hethos, gan sicrhau ein bod yn parhau i godi ein proffil fel llais dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru
    - Defnyddio ein haelodau a'n cefnogwyr i ymgyrchu am fuddsoddiad gwell mewn dysgu oedolion yn y gymuned, fel y gallwn ehangu ein cyrhaeddiad
    - Asesu effaith dysgu oedolion yn y gymuned a dangos ei werth er mwyn dylanwadu ar bolisi.

3. **Cydweithio ac ymgysylltu cryf**

    - Sicrhau mai ein dysgwyr sydd wrth wraidd popeth a wnawn, gan wrando arnynt a gweithredu yn unol â'u hadborth i wella ein cynnig yn barhaus
    - Datblygu ymgysylltu â chyflogwyr i wella sgiliau oedolion sy'n gweithio i gefnogi mentrau sy'n helpu i fynd i'r afael â thlodi yn y gwaith
    - Cydlynu a datblygu partneriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i gryfhau cyfleoedd dysgu i oedolion
    - Cryfhau ein gweithgareddau aelodaeth a'n gweithgareddau cangen i fodloni anghenion dysgu cymunedol, meithrin mentrau iechyd a lles, cymunedau gwydn a chryf a hyrwyddo democratiaeth weithredol.

4. **Twf cyfrifol**

    - Canfod ffynonellau cyllid ychwanegol i gynhyrchu buddsoddiad mewn adnoddau dysgu a thwf yn ein cwricwlwm
    - Ymrwymo i ddatblygu cynaliadwy, gan sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd iach, ddiogel gan fod yn ymwybodol o'r amgylchedd
    - Sicrhau bod y twf yn ein darpariaeth yn hollgynhwysol, gan ddarparu cyfle cyfartal ym mhopeth a wnawn i fodloni cyfleoedd cymdeithasol, economaidd a dysgu personol
    - Hyrwyddo diwylliant o ddidwylledd a thryloywder, ymrwymo i werthfawrogi a buddsoddi mewn staff lle mae ein hethos sefydliad dysgu yn hyrwyddo syniadau ac yn grymuso pobl i wneud mewnbwn cadarnhaol i dwf yn y dyfodol.

1.4 Y Cyd-destun Polisi

Yn dilyn penodi Gweinidog newydd dros Addysg a'r Gymraeg ym mis Mai 2021 mae ffocws sylweddol wedi'i roi i'r sector dysgu oedolion. Gyda datganiad polisi uchelgeisiol i greu "cenedl ail gyfle", mae'r Gweinidog wedi sefydlu Grŵp Cyfeirio Allanol sydd â'r dasg o gyflwyno rhaglen genedlaethol o Gydgysylltu Dysgu Gydol Oes, y mae AOC yn aelod ohono.

Mae'r rhaglen yn ei lle i gyflawni'r ymrwymiad hwn, wedi'i lywio gan adolygiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru Cefnogi system Dysgu Gydol Oes Cymru | WCPP Rhagfyr 2021. Fel aelod o'r grŵp bydd AOC yn ymdrechu i roi cynrychiolaeth gref ar faterion yn ymwneud â dysgu oedolion yn y gymuned. Mae aelodau eraill yn cynnwys arweinwyr dysgu oedolion yn y gymuned mewn awdurdodau lleol, addysg bellach ac uwch, TUC Cymru, Sefydliad Dysgu a Gwaith (Cymru), y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Sefydliad Bevan.

Pasiwyd **Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** gan y Senedd ar 28 Mehefin 2022 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 8 Medi 2022. Mae'r Ddeddf yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER), corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru, ac yn diddymu'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Y bwriad yw sefydlu'r Comisiwn yn 2023 a fydd yn gyfrifol am strategaeth, ariannu, a throsolwg o'r Sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (AHO) gan gynnwys addysg oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned.

Mae Bwrdd Strategaeth AHO wedi'i sefydlu, ac mae AOC yn aelod ohono. Bydd y Bwrdd Strategaeth yn cefnogi'r Gweinidog, Uwch Swyddog gyda Chyfrifoldeb i'r Rhaglen CTER ar swyddogion, drwy weithio ar y cyd i ddarparu trosolwg strategol a chyngor arbenigol i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth AHO, y cyfnod pontio, a gweithredu'r rhaglen a sefydlu CTER.

Fel rhan o raglen Lefelu i Fyny Llywodraeth y DU, mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) yn sefydlu tair blaenoriaeth fuddsoddi UKSPF: cymunedau a lle; cefnogi busnesau lleol; a phobl a sgiliau. Mae amcanion manwl yn gysylltiedig â phob un o'r blaenoriaethau hyn sy'n cyd-fynd â chenhadaeth berthnasol y Papur Gwyn Lefelu i Fyny. Mae rhan o'r rhaglen yn gweld buddsoddiad yng Nghymru o £103M yn y "Cynllun Lluosi" i wella sgiliau rhifedd oedolion. Mae'r cronfeydd hyn gyda'i gilydd yn cynnig buddsoddiad sylweddol drwy arweinwyr awdurdodau lleol ledled Cymru, ac mae AOC yn parhau i geisio sefydlu trefniadau partneriaeth i gefnogi targedau cyflawni i fodloni'r agenda sgiliau. Mae wedi bod yn amgylchedd heriol i geisio gwneud cynnydd ynddo.

1.5 Llywodraethu a Rheoli

Mae corff llywodraethu'r Sefydliad, ei Gyngor, yn cymryd rhan lawn mewn cymeradwyo'r Cynllun Strategol a monitro ei gyflawni. Mae holl aelodau'r Cyngor hefyd yn aelodau o un Pwyllgor o leiaf, ac mae gan bob Pwyllgor gylch gorchwyl i fonitro rhan o'r Strategaeth sy'n ymwneud â'r Pwyllgor hwnnw. Mae aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau i ddarparu gwybodaeth fanwl i'w chraffu gan wirfoddolwyr sy'n aelodau o'r Cyngor. Gwneir archwiliad o sgiliau bob blwyddyn i asesu'r bylchau yn y lefelau sgiliau o fewn y Cyngor a'r Pwyllgorau, ac etholir aelodau cyfetholedig i wasanaethu ar rai Pwyllgorau er mwyn datrys y bylchau hyn cystal ag y gellir.

1.6 Amcanion ariannol

Dyma amcanion ariannol y Sefydliad:

- cyflawni gwarged gweithredu blynyddol cyn FRS 102
- canfod ffynonellau eraill o gyllid, a'u dewis a'u dethol, yn gyson â nodau ac amcanion y Sefydliad, a'r angen am gyfraniad ariannol at gyllid cyffredinol y Sefydliad
- cynhyrchu lefelau digonol o incwm i ategu sylfaen asedau'r Sefydliad
- parhau i wella hylifedd tymor byrrach y Sefydliad
- cynnal lefel gyfartalog o arian parod o £500,000
- cynnal statws ariannol categori "B" Llywodraeth Cymru.

Bydd cyflawni'r targedau uchod yn golygu cynnal lefelau staffio tynn ac elwa ar bob cyfle rhesymol i wneud arbedion effeithlonrwydd. Yn ychwanegol, mae sicrhau twf yn nifer y myfyrwyr yn hanfodol i sicrhau'r ffrydiau incwm sydd wedi'u rhagamcanu.

1.7 Rheolaethau ansawdd

Mae Adroddiad Hunanasesu'r Sefydliad (AHA) yn mesur ein perfformiad trwy gydol y flwyddyn fel rhan o'r Cylch Ansawdd. Ysgrifennir yr AHA yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Llunnir barnau gan ddefnyddio fformat Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn sy'n canolbwyntio ar 5 cwestiwn allweddol yn ymwneud â Safonau, Lles ac Agweddau at Ddysgu, Addysgu a Phrofiadau Dysgu, Gofal, Cymorth ac Arweiniad, ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth.

Mae'r sefydliad yn gweithio'n barhaus i wella a datblygu prosesau i sicrhau bod data a ddefnyddir i lywio cynllunio yn cael ei gynhyrchu'n amserol, ei fod yn drylwyr a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ar draws y Sefydliad i lywio'r broses Hunanasesu. Cedwir copi o'r AHA ar fewnrwyd y Sefydliad ac mae ar gael i'r holl staff. Caiff unrhyw feysydd i'w datblygu a amlygir yn yr AHA eu hymgorffori yn y Cynllun Datblygu Ansawdd (CDA), sy'n cael ei lunio gan yr Uwch Dîm Rheoli. Ymgorfforir monitro'r CDA yn y Cylch Ansawdd ac fe'i hadolygir ar lefel weithredol, uwch reolwyr ac ar lefel llywodraethu.

Drwy gydol y flwyddyn, cynhaliwyd digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i gynyddu sgiliau tiwtoriaid a staff craidd mewn perthynas â materion cysylltiedig ag ansawdd, er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal. Mae hyn yn rhan o'r cynllun dysgu a datblygu. Cynhaliwyd ystod o weithgareddau a digwyddiadau safoni gyda chyfleoedd i'r holl staff ymgysylltu â gweithgareddau asesu a sicrhau ansawdd mewnol er mwyn datblygu eu harferion. Caiff y broses Sicrhau Ansawdd Mewnol ei monitro a'i hadolygu o ran ei heffeithiolrwydd ac effaith ei defnydd. Yr Uwch Dîm Rheoli a'r Cyngor, drwy'r Pwyllgor Profiad y Dysgwr, sy'n craffu ar fesurau rheoli ansawdd. Prif gynlluniau'r Sefydliad yw ei Gynllun Strategol, y Cynllun Datblygu Darpariaeth, yr AHA/CDA a'r Gofrestr Risgiau. Mae'r Cyngor a'i Bwyllgorau yn craffu ar y camau gweithredu a'r targedau a amlinellir yn y cynlluniau hyn.

2. DATBLYGIAD A PHERFFORMIAD PRESENNOL AC YN Y DYFODOL

2.1 Niferoedd myfyrwyr

Yn 2020/21, fe wnaeth y Sefydliad recriwtio 9,534 o ddysgwyr, 69% yn fenywod a 31% yn wrywod. Roedd y cyfraddau cwblhau* ar gyfer darpariaeth wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru yn unig yn 96% ar y cyfan (yr un lefel â'r Cymharydd Cenedlaethol), roedd y cyfraddau Cyrhaeddiad yn 81% (nid yw'r Cymharydd Cenedlaethol ar gael) a'r cyfraddau Cwblhau'n Llwyddiannus oedd 78% (12% islaw'r Cymaryddion Cenedlaethol). Effeithiwyd yn sylweddol ar y gyfradd Cwblhau'n Llwyddiannus gan y cyfnod clo a'r anallu i gwblhau nifer fawr o gyrsiau achrededig.

*Mae cwblhau yn cynnwys darpariaeth achrededig a darpariaeth heb ei hachredu. Mae'r Cymaryddion Cenedlaethol yn ddata o 18/19 ac fe'u cafwyd o ddogfen 'Datganiad Ystadegol Cyntaf SFR 08/2020' Ystadegau Gwladol Cymru (Tudalen 9). Nid yw Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn cyhoeddi Cymaryddion Cenedlaethol 21/22 oherwydd yr achosion o Covid-19.

2.2 Cyflawniadau myfyrwyr

Mae'r tabl isod yn rhoi'r data perfformiad cyfredol sydd ar gael wedi'u grwpio fesul meysydd dysgu.

Maes Pwnc Sector	Disgrifiad o'r Maes Pwnc Sector	Gweithgareddau Dysgu	Oriau Cyswllt Dysgwyr dan Arweiniad	Cwblhau %	Cyrhaeddiad %	Llwyddiant %
	Cyfanswm	**19,376**	**386,994**	**96%**	**81%**	**78%**
14d	Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)	5,316	143,637	95%	72%	68%
14c	Sylfaen i Waith	4,454	66,537	96%	80%	78%
13	Addysg a Hyfforddiant	925	35,528	96%	72%	69%
1	Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal	2,166	33,846	98%	81%	79%
15	Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith	1,205	23,688	98%	97%	95%
9b	Celf a Dylunio	1,224	22,055	96%	89%	85%
14b	Addysg Sylfaenol Oedolion	1,720	18,504	94%	75%	69%
14a	Sgiliau Byw'n Annibynnol	280	13,800	95%	100%	100%
12	Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant	560	7,643	94%	74%	68%
7c	Lletygarwch ac Arlwyo	559	4,805	100%	96%	96%
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	246	4,099	94%	88%	83%
9a	Y Celfyddydau Perfformio	219	4,044	100%	N/A	N/A
4	Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu	160	2,790	97%	80%	78%
7a	Manwerthu a Gofal Cwsmeriaid	90	1,391	94%	85%	80%
3	Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid	56	1,332	95%	90%	87%
10	Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth	84	1,160	100%	100%	100%
2	Gwyddoniaeth a Mathemateg	56	1,136	93%	73%	68%
11	Gwyddorau Cymdeithasol	47	779	89%	78%	78%
12b	Cymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Eraill	5	140	60%	100%	60%
8	Hamdden, Teithio a Thwristiaeth	4	80	100%	100%	100%

Mae canrannau cwblhau yn cynnwys y ddarpariaeth achrededig a'r ddarpariaeth heb ei hachredu, tra bod canrannau Cyrhaeddiad a Llwyddiant yn cynnwys darpariaeth achrededig yn unig. Mae cyflawniadau dysgwyr ar gyrsiau sydd heb eu hachredu yn anoddach eu mesur, er bod y defnydd o gynlluniau dysgu unigol yn cynnig tystiolaeth o'r 'pellter a deithiwyd'.

2.3 Proffil y Myfyrwyr

Y cyrsiau mwyaf poblogaidd yw: Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), Sylfaen ar gyfer Gwaith, Addysg a Hyfforddiant, Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal, Astudiaethau Undebau Llafur (wedi ei gategoreiddio fel Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith), Celf a Dylunio, Addysg Sylfaenol i Oedolion a Sgiliau Byw'n Annibynnol.

Rydym wedi parhau â'n gwaith gyda cheiswyr lloches a grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Roedd 14.9% o'n dysgwyr yn 2021/22 o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Rydym yn parhau i dargedu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ac mae 51.7% o'n dysgwyr yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd. Mae dros ddwy ran o dair o'n dysgwyr yn fenywod ar 69% yn 21/22 o gymharu â 70% yn y flwyddyn academaidd 20/21 ac mae 80.9% o'n dysgwyr rhwng 20 a 60 oed sy'n cymharu'n agos gyda data 20/21 o 80.6%.

2.4 Datblygiadau cwricwlwm

Roedd y ddarpariaeth ar gyfer 2021/22 yn gyfuniad o astudiaethau gweithle/undeb llafur, cwricwlwm prosiectau rhanbarthol, cenedlaethol ynghyd a'r Gronfa Lloches, Ymfudo ac Integreiddio (AMIF) a weinyddwyd o'r swyddfeydd sefydliadol a chartrefi staff sy'n weithwyr cartref ymroddedig/sydd ag arferion gweithio ystwyth y cytunwyd arnynt.

Yn 2021/22 gwelwyd newid yn ôl i ddarpariaeth wyneb yn wyneb ar gyfer y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth, gyda pheth darpariaeth ar-lein/cyfun yn parhau fel yn briodol i anghenion dysgwyr.

Parhaodd y sefydliad i ymgysylltu â dysgwyr sy'n oedolion a oedd bellaf i ffwrdd o gyflogaeth, yn enwedig o ardaloedd o amddifadedd a'r rhai â'r lefelau sgiliau isaf, trwy gydweithio cryf â strwythur Cangen y Sefydliad, partneriaid a rhwydweithiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Cynigiwyd dysgu a ddarperir yn y gweithle mewn ymateb i alw gan y mudiad undebau llafur a chyflogwyr. Cefnogwyd rhywfaint o hyn drwy Gronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF). Yn ogystal â rhaglenni dysgu wedi'u hariannu'n graidd, roedd adennill costau llawn / creu incwm naill ai trwy wasanaethau cyflenwi neu achredu yn parhau i fod yn ffocws. At hynny, ymgysylltodd Prosiect AMIF y sefydliadau gyda dros 450 o ffoaduriaid a Gwladolion Trydydd Gwlad.

Drwy gydol 2021/22, parhaodd AOC i gynnig ystod eang o ddarpariaeth, yn ymestyn o gyn-fynediad i Lefel 2 yn y mwyafrif o feysydd rhaglen, gyda rhaglenni Gwaith Ieuenctid a Chwnsela yn darparu hyd at Lefelau 3 a 4. Roedd hyn yn gyson gyda blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Dysgu Oedolion yng Nghymru, gyda phwyslais parhaus ar sgiliau hanfodol (gan gynnwys Llythrennedd Digidol), SSIE (ESOL) a sgiliau cyflogadwyedd. ESOL oedd y maes rhaglen mwyaf o hyd, o ran nifer yr oriau cyflwyno.

Drwy gydol y flwyddyn academaidd, roedd darpariaeth heb ei hachredu yn cyfrif am ganran sylweddol o'r ddarpariaeth. Parhaodd ymgysylltu â dysgwyr i fod yn flaenoriaeth, gyda ffocws penodol ar iechyd a lles dysgwyr ac effaith y pandemig ar hyn.

At ddibenion Llywodraeth Cymru ac Estyn, mae pob dysgu yn parhau i gael ei nodi fel Dysgu Oedolion yn y Gymuned ac nid Addysg Bellach neu Ddysgu Seiliedig ar Waith.

2.5 Datblygiadau i'r dyfodol

Rydym bellach yn cael ein hunain mewn tirwedd sy'n cael ei nodweddu gan effaith pandemig byd-eang, rhyfel yn yr Wcrain ac Argyfwng Costau Byw sydd wedi tarfu'n fawr ar ein heconomi. Mae hyn wedi rhoi pwysau pellach ar wariant cyhoeddus ac ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu bod pwysau ychwanegol ar ein hadnoddau. Mae'r cyd-destun economaidd cyfnewidiol yn cyflwyno nifer o heriau sylweddol i Gymru, ac i ddysgu oedolion yn benodol. Yn ogystal â'r problemau sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio, datblygiadau cyflym mewn technoleg a newid mewn patrymau cyflogaeth, mae'r sector preifat yn profi adferiad economaidd araf. O fewn yr amgylchedd economaidd heriol hwn, mae angen cynyddol am ffyrdd mwy cost effeithiol ac arloesol o weithio gyda chyllideb lai.

Mae'r Sefydliad yn hyderus yn ei gynhwysedd a'i allu i ymateb yn effeithiol i'r heriau hyn. Mae mewn sefyllfa dda i adeiladu ar etifeddiaeth ei sefydliadau sefydlu a bydd yn hyrwyddo addysg ryddfrydol eang sy'n gwella cyfiawnder cymdeithasol ac ymgysylltu â'r gymuned, ochr yn ochr â chynnig gwasanaethau addysg a hyfforddiant â ffocws uchel ar gyfer cyflogadwyedd, menter a datblygu sgiliau.

Byddwn yn parhau i adolygu a datblygu ein harlwy cwricwlwm i sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at wella ein fframwaith digidol, tyfu ein darpariaeth, datblygu perthnasoedd allanol yn enwedig ar draws y sector gwirfoddol a sefydlu ein hunain fel darparwr cenedlaethol cydnabyddedig Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau ymagwedd hyblyg ac ystod eang o opsiynau dysgu sy'n cynyddu ymgysylltiad dysgwyr.

3. ADNODDAU

Mae gan y Sefydliad adnoddau ffisegol cyfyngedig y gall eu defnyddio i gyflawni ei amcanion strategol. Mae ei adnoddau diriaethol yn cynnwys safleoedd Bryn Menai ym Mangor ac Iard y Cowper yng Nghaerdydd. Mae'r Sefydliad yn parhau i gadw rhai adnoddau diriaethol yn Harlech.

3.1 Ariannol

Amcanion ariannol

Dyma amcanion ariannol y Sefydliad:

- cyflawni gwarged gweithredu blynyddol cyn FRS 102 – cyflawnwyd hyn gyda gwarged o £44k.
- canfod ffynonellau eraill o gyllid, a'u dewis a'u dethol, yn gyson â nodau ac amcanion y Sefydliad, a'r angen am gyfraniad ariannol at gyllid cyffredinol y Sefydliad - cyflawnwyd hyn trwy wneud cais am nifer o ffynonellau cyllid eraill a'u sicrhau.
- cynhyrchu lefelau digonol o incwm i ategu sylfaen asedau'r Sefydliad - cyflawnwyd, oherwydd yn ystod y flwyddyn dyfarnwyd nifer o grantiau mawr i'r Sefydliad i wella'r asedau ar draws y sefydliad.
- gwella hylifedd tymor byrrach y Sefydliad ymhellach – cyflawnwyd hyn gyda balansau arian parod diwedd blwyddyn yn £5.904m.
- cynnal lefel cyfartalog o arian parod o £500,000 – cyflawnwyd hyn.
- cynnal statws ariannol categori "B" Llywodraeth Cymru – cyflawnwyd hyn.

Mae cyflawni'r targedau uchod yn mynnu cynnal lefelau staffio tynn ac elwa ar bob cyfle rhesymol i wneud arbedion effeithlonrwydd**.**

Canlyniadau ariannol

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi perfformiad 2021/22 o'i gymharu â pherfformiad 2020/21:

	2021/22	2020/21
Gwarged/(diffyg) gweithredu cyn addasiadau pensiwn FRS 102 (28) ac enillion net gwerthiannau	£44K	£228K
Gwarged/(diffyg) gweithredu ar ôl addasiadau pensiwn FRS 102 (28) ac enillion net gwerthiannau	(£793k)	(£471k)
Cymhareb gyfredol (asedau cyfredol/rhwymedigaethau cyfredol)	2 : 1	2.2:1
Costau staff fel % o incwm	85.7%	86.1%
Incwm gan Lywodraeth Cymru fel % o gyfanswm yr incwm	89%	90%
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig	£6.48m	(£1.34m)
Balansau arian parod	£5.904m	£5.215m
Asedau net	£7.633m	(£117k)

Roedd ychwanegiadau asedau sefydlog diriaethol yn ystod y flwyddyn yn £116k ac fe'u rhannwyd rhwng gosodiadau a ffitiadau £23k ac offer ar £93k.

Polisïau ac amcanion Trysorlys

Ystyr rheoli trysorlys yw rheoli llifoedd arian y Sefydliad, ei drafodion bancio, ei drafodion yn y farchnad arian ac yn y farchnad gyfalaf; rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny yn effeithiol; ac ymdrechu i sicrhau'r perfformiad gorau posibl yn gyson â'r risgiau hynny.

Mae hyn yn un o gyfrifoldebau'r swyddogaeth cyllid, ac mae'r Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformio yn ei oruchwylio.

Ni chafwyd unrhyw fenthyciadau tymor byr yn ystod y flwyddyn. Pe bai'r Sefydliad yn cael unrhyw fenthyciadau tymor byr at ddibenion refeniw dros dro, byddai hyn yn cael ei awdurdodi gan y Prif Weithredwr a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Adnoddau. Cyfyngir ar drefniadau o'r fath gan yr uchafsymiau a bennir yn y Memorandwm Ariannol â LIC. Byddai angen cael awdurdodiad gan y Cyngor i gymeradwyo unrhyw fenthyciadau eraill, a byddai'n rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion Memorandwm Ariannol LIC.

Buddsoddiadau

Mae'r Sefydliad wedi datblygu polisi buddsoddi moesegol yn flaenorol a ddefnyddir i gefnogi ei fuddsoddiadau. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan y Sefydliad £1.264m (nodyn 17) mewn dwy gronfa fuddsoddi ar wahân, wedi'u rheoli gan Brewin Dolphin.

Llifoedd Arian a Hylifedd

Mae'r llif arian gweithredol, sef £802k (2020/21: £1,311k) yn gadarnhaol ar gyfer y cyfnod unwaith eto.

Roedd cynnydd mewn cronfeydd net ar gyfer y flwyddyn o £693k o gymharu â 2020/21, sef £1,149k.

Mae'r gymhareb bresennol, sef (2:1) wedi gostwng ychydig ers 20/21 (2.2:1), ond mae'n parhau i fod ar lefel dda. Mae'r sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn sefydlog, sy'n dangos cynnydd parhaus y Sefydliad o ran ei nod o gynnal iechyd ariannol trwy well hylifedd.

Cronfeydd wrth gefn

Mae lefelau cronfeydd wrth gefn yn dibynnu ar anghenion gweithredol, ond nod y Sefydliad yw cadw o leiaf tri mis o gostau rhedeg, gan gynnwys cyflogau, mewn Cronfeydd Cyffredinol (anghyfyngedig) wrth gefn. Roedd y rhain yn (£6.48m) (2020/21: £1.34m) ar 31 Gorffennaf 2021, ac felly bodlonwyd y targed o £1.6m. Bu gostyngiad o £7.786m yn y diffyg pensiwn yn y flwyddyn gan arwain at warged o £2.410m ar 31 Gorffennaf 2022 Mae'r targed o £1.6m yn cyd-fynd ag arweiniad y Comisiwn Elusennau a'r arfer da a awgrymir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach. Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Adnoddau adroddiadau rheolaidd ynghylch cronfeydd wrth gefn ac maent yn eu hadolygu'n rheolaidd, a chaiff gwariant o'r cronfeydd wrth gefn ei gymeradwyo gan y Cyngor.

Datblygir cyllideb tair blynedd fel arfer, ond oherwydd yr ansicrwydd a'r anwadalrwydd o ran cyllido, cyllideb un flynedd yn unig a gynhyrchwyd ar gyfer blwyddyn 2022/23 sydd wedi'i bwriadu i gynyddu lefelau'r cronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, cydnabyddir bod heriau sylweddol o ran gwneud rhagolygon ariannol oherwydd y sefyllfa bresennol a'r effaith a gaiff hyn ar allu'r Sefydliad i gynllunio.

Perfformiad o ran taliadau

Mae Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 1998, yn mynnu bod AOC, os nad oes cytundeb i'r gwrthwyneb, yn gwneud taliadau i gyflenwyr o fewn 30 diwrnod ar ôl darparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau, neu o fewn 30 diwrnod o ddyddiad derbyn yr anfoneb.

Mae telerau cyflenwyr wedi'u gosod o fewn y system gyfrifyddu, a gallent amrywio o 0 diwrnod (yn achos gweithwyr/aelodau gwirfoddol yn hawlio treuliau) hyd at 30 diwrnod yn achos cyflenwyr mawr. Os bydd angen taliadau yn fwy mynych e.e. i gyflenwyr cyfleustodau ac ati, caiff telerau eu pennu ac, os gellir gwneud hynny, telir o fewn yr amserlen ofynnol.

Os bydd anghydfod ynghylch anfonebau, hysbysir cyflenwyr yn syth a chânt eu talu cyn gynted ag y bo modd os bydd arian yn ddyledus. Pan fydd cyflenwyr yn ymholi ynghylch taliadau sydd heb eu gwneud am ba bynnag reswm, ymchwilir i'r sefyllfa yn syth a gofynnir am gopïau o anfonebau os bydd angen hynny.

Ble bynnag y bo modd, bydd y Sefydliad yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Taliadau Gwell.

Gall anfonebau awdurdodedig sy'n cyrraedd yr Adran Gyllid yn hwyr arwain at daliadau hwyr.

Mae swyddfeydd maes yn ymwybodol o'r angen i awdurdodi anfonebau a'u dychwelyd i'r Adran Gyllid fel y gellir eu talu cyn gynted ag y bo modd.

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Awst 2021 a 31 Gorffennaf 2022, ni fu'n rhaid i'r Sefydliad dalu unrhyw daliadau llog mewn cysylltiad â thaliadau hwyr.

Digwyddiadau wedi dyddiad y fantolen

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau wedi dyddiad y fantolen i adrodd amdanynt.

3.2 Staffio

Ar 31 Gorffennaf 2022 roedd 209 o staff addysgu a delid fesul awr, gan gynnwys gweithwyr cymorth a 117 o staff cymorth cyflogedig, 72 yn llawn amser a 45 yn rhan amser.

Gweithredir Cynllun Dysgu a Datblygu, sy'n seiliedig ar yr anghenion hyfforddiant a nodir gan y Sefydliad ac unigolion, yn flynyddol, ac fe gaiff ei ddiweddaru trwy gydol y flwyddyn.

Mae arsylwadau addysgu yn galluogi monitro ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth cymorth i staff addysgu, tra'n nodi anghenion hyfforddiant a datblygiad. Mae cyfarfodydd dal-i-fyny bob tymor rhwng staff a rheolwyr llinell yn darparu ymagwedd ragweithiol at hunanasesu a gosod targedau, gyda phwyslais ar anghenion Datblygiad Proffesiynol Parhaus yr unigolyn ac uchelgeisiau i wella er mwyn cyflawni targedau.

4. PRIF RISGIAU AC ANSICRWYDD

Mae AOC wedi gwneud rhagor o waith yn ystod y flwyddyn i ddatblygu ac ymgorffori'r system o reolaeth fewnol, yn cynnwys rheoli cyllid, gweithrediadau a risgiau, a bwriad y system yw diogelu asedau ac enw da AOC.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r risgiau sy'n bygwth y Sefydliad, ac maent wedi'u cofnodi mewn cofrestr risgiau sy'n cynnwys cynlluniau gweithredu clir. Maent yn nodi systemau a gweithdrefnau, yn cynnwys camau ataliol penodol a ddylai liniaru unrhyw effaith bosibl ar y Sefydliad. Yna, caiff y rheolaethau mewnol eu gweithredu a bydd gwerthusiad y flwyddyn ddilynol yn adolygu eu heffeithiolrwydd a'u cynnydd yn erbyn y camau gweithredu i liniaru risgiau. Yn ogystal â'r adolygiad blynyddol, bydd yr Uwch Dîm Rheoli hefyd yn ystyried unrhyw risgiau a allai ddeillio o ganlyniad i'r Sefydliad yn mentro i faes gwaith newydd.

Mae'r prif risgiau a nodwyd wedi'u dwysáu gan effaith y pandemig cyfredol. Mae'r sefyllfa wedi lleihau'r gallu i ragamcanu'n gywir oherwydd anwadalrwydd ac ansicrwydd y sefyllfa bresennol. Er mwyn lliniaru'r risgiau, mae Uwch Swyddogion y Sefydliad yn cysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth Cymru er mwyn nodi heriau allweddol a'u rheoli.
Cynhelir Cofrestr Risgiau a chaiff ei hadolygu'n dymhorol gan y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Gofrestr Risgiau yn nodi'r risgiau allweddol, y tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny, eu heffaith bosibl ar y Sefydliad a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i leihau a lliniaru'r risgiau. Caiff risgiau eu blaenoriaethu gan ddefnyddio system sgorio gyson.

Isod, disgrifir y prif ffactorau risg a all effeithio ar AOC ynghyd â chamau gweithredu i'w lliniaru. Nid yw pob ffactor o fewn rheolaeth y Sefydliad: gall ffactorau eraill heblaw'r rhai a restrir isod effeithio'n andwyol arno hefyd.

4.1 Cyllid gan y Llywodraeth

Mae'r Sefydliad yn dibynnu'n sylweddol ar barhad cyllid gan Lywodraeth Cymru a awdurdodir drwy'r Senedd, a disgwylir i lefelau cyllid aros yn sefydlog ar gyfer 2022/23.

Caiff y risg hon ei lliniaru mewn sawl ffordd, sef:

- Mae cyllideb flynyddol dreigl ar waith, sy'n cefnogi cyflawni'r cynllun strategol wrth nodi pwysau o ran y gyllideb, ac yn galluogi'r Sefydliad i gynllunio yn unol â hynny.
- Mae'r Sefydliad yn parhau i ehangu darpariaeth sydd ag amrywiaeth o ddewisiadau cysylltiedig i adennill ffioedd cyrsiau.
- Mae'r Sefydliad wedi datblygu ffocws mwy masnachol mewn perthynas â darparu hyfforddiant i fusnesau: mae ganddo dîm dysgu yn y gweithle penodol sy'n canolbwyntio ar y sector busnes.
- Trwy sicrhau bod y Sefydliad yn drylwyr yn ei ymdrechion i ddarparu addysg o ansawdd uchel.
- Canolbwyntir yn sylweddol ar gynnal a rheoli perthnasoedd allweddol â chyrff ariannu amrywiol, a buddsoddir yn sylweddol yn hynny.
- Mae gan y Sefydliad gyflogai Datblygu Busnes penodol i amlygu a datblygu cyfleoedd twf.
- Sicrhau bod y Sefydliad yn canolbwyntio ar y sectorau hynny â blaenoriaeth a fydd yn parhau i elwa o arian cyhoeddus.
- Trafodaethau rheolaidd â Llywodraeth Cymru a chyllidwyr allweddol eraill.
- Paratoi ceisiadau am gyllid gan ffynonellau heblaw am Lywodraeth Cymru.
- Trafodaethau â darparwyr eraill i ddatblygu ceisiadau ar y cyd am gytundebau i ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.

4.2 Sicrhau cyllid digonol i dalu am rwymedigaethau pensiwn

Mae'r datganiadau ariannol yn dangos cyfran y diffyg ariannol yn y cynllun pensiwn ar fantolen y Sefydliad, yn unol â gofynion FRS 102. Cynhelir trafodaethau rheolaidd â darparwyr cynlluniau pensiwn i sicrhau bod cyfraniadau'r cyflogwr yn ddigon i leihau diffyg ariannol y gronfa, ond ar yr un pryd, ddim yn ormodol.

4.3 Seilwaith TG

Mae'r contract cefnogi ar gyfer y Sefydliad wedi'i wella a'i weithredu ar gyfer y flwyddyn, ac mae'n rhoi mecanweithiau cefnogi cryfach yn eu lle. Mae hyn yn helpu i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r seilwaith TG.

5. PERTHNASOEDD Â RHANDDEILIAID

Mae gan y Sefydliad lawer o randdeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Llywodraeth Cymru
- Staff
- Sefydliadau Addysg Bellach eraill
- Undebau llafur
- Cyrff achredu
- Sefydliadau Addysg Uwch
- Sefydliadau a phartneriaid eraill y trydydd sector
- Dysgwyr
- Arianwyr
- Canghennau
- Aelodau
- Gwirfoddolwyr

- Y gymuned leol
- Cyflogwyr lleol (â chysylltiadau penodol)
- Awdurdodau Lleol
- Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned, yn rhanbarthol ac yn lleol

Mae'r Sefydliad yn cydnabod pwysigrwydd y perthnasoedd hyn ac mae'n cyfathrebu ac yn cydweithio'n rheolaidd â rhanddeiliaid. Mae'n gwerthfawrogi'n arbennig ymdrechion gwirfoddol ei swyddogion Canghennau a chadeiryddion Fforymau Rhanbarthol wrth ehangu natur ddemocrataidd strwythurau'r Sefydliad.

5.1 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r Sefydliad yn cydnabod bod gwahaniaethu, rhagfarn ac anfantais yn bodoli yn y gymdeithas sydd ohoni, a bod grwpiau ac unigolion wedi cael eu trin yn annheg am resymau sy'n ymwneud â rhywedd, tarddiad ethnig, hil, cenedligrwydd, statws anabledd, statws priodasol neu deuluol, cyfeiriadedd rhywiol, oedran a chrefydd. Rydym yn ymrwymo i wneud ein cyfraniad at helpu i ddileu hyn trwy weithio'n gadarnhaol er mwyn hybu cymdeithas fwy cynhwysol. Ein nod a'n hymrwymiad yw cynnig ein holl wasanaethau a'n cyfleoedd am swyddi mewn modd teg a chyfiawn.

Mae gwerthoedd AOC yn pwysleisio egwyddor cyfiawnder a bwriad hynny yw ymestyn cyfleoedd addysgol i bob dysgwr a darpar ddysgwr, waeth beth fo'u dosbarth cymdeithasol, oedran, anabledd neu anhawster dysgu, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, lliw, iaith a diwylliant, credoau crefyddol, statws economaidd neu statws priodasol. Ymrwymir bob amser i ddiwallu anghenion a chyflawni dyheadau unigolion, a gwella'u sgiliau, o fewn y profiad dysgu ac yn y gweithle. Mae'r Sefydliad yn cydnabod hefyd fod addysg yn galluogi cynnydd unigolion a chymunedau fel ei gilydd, trwy gyfraniad unigolion ymwybodol ac ymroddgar, ac mae'n ystyried bod ei gydnabyddiaeth o bwrpas cymdeithasol addysg yn rhan anhepgor o'i ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal.

Polisi'r Sefydliad yw cymryd pob cam rhesymol i gyflogi a dyrchafu cyflogeion ar sail eu sgiliau. Mae monitro cyson a dadansoddiad rheolaidd o'r data a gesglir o ganlyniad i fonitro amrywiaeth yn sylfaen i gamau gweithredu priodol i ddileu gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol anghyfreithlon, ac annog cyfle cyfartal. Mae'r Sefydliad yn ystyried pob cais am swydd gan bobl anabl, gan ystyried tueddfryd yr unigolion sydd dan sylw. Os bydd cyflogai presennol yn dod yn anabl, gwneir pob ymdrech i sicrhau y gall barhau i weithio i AOC. Polisi'r Sefydliad yw darparu hyfforddiant, cyfleoedd i ddatblygu gyrfa a chyfleoedd am ddyrchafiad, sydd, hyd ag y gellir sicrhau hynny, yn union fel y rhai a gynigir i gyflogedigion eraill. Mae'r Sefydliad yn gwneud ei orau glas i sicrhau bod unrhyw broblemau a wynebir gan gyflogedigion anabl neu gyflogedigion anabl posibl yn cael eu lleihau i'r eithaf.

Mae gan y tîm Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau Dynol gyfrifoldeb am gydlynu datblygu, gweithredu ac adolygu'r holl faterion, a chynnydd yn ymwneud â diogelu, cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn unol â deddfwriaeth a dyletswyddau statudol. Mae monitro a chraffu ar faterion yn ymwneud â diogelu, cydraddoldeb ac amrywiaeth ar lefel Pwyllgorau yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Profiad Dysgwyr.

5.2 Datganiad ynghylch anabledd

Fel rhan o'i ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, mae'r Sefydliad yn ceisio sicrhau bod y sawl sydd ag anableddau yn cael mynediad llawn at ei gyrsiau a'i gyfarfodydd. I'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol, mae'n gwneud trefniadau i sicrhau bod myfyrwyr sydd ag anableddau yn gallu elwa'n llawn o'i weithgareddau, trwy sicrhau bod y cyfryngau a'r cymorth angenrheidiol yn cael eu darparu, a bod mynediad i adeiladau lle cynhelir ei gyrsiau yn bosibl. Fodd bynnag, darperir cyrsiau gan amlaf ar safleoedd nad yw AOC yn berchen arnynt. Yn y sefyllfaoedd hyn, bydd y Sefydliad yn gweithio gyda darparwyr safleoedd i ddarparu mynediad cyfartal, ble bynnag y bo modd. Os nad oes mynediad cyfartal ar gael mewn lleoliad cymunedol, bydd trefniadau eraill yn cael eu harchwilio, yn ôl yr angen.

5.3 AOC a'r Iaith Gymraeg

Mae AOC yn ymrwymo i weledigaeth Llywodraeth Cymru ynghylch Cymru wirioneddol ddwyieithog, yn unol â'r hyn a amlinellir yn y ddogfen ***Cymraeg 2050***, sef strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg (2018). Mae hon yn amlinellu ei gweledigaeth i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Mae'n weledigaeth y mae AOC yn gwbl ymroddedig iddi. Bydd AOC yn gweithio i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn hollol gyfartal â'r Saesneg. Bydd safonau a bennir ynghylch y gwasanaethau a ddarperir yn y ddwy iaith yn glir a chyson, a byddant yn ymdrechu i fod yn rhesymol a chymesur, i adlewyrchu Sefydliad addysgol ar gyfer Cymru gyfan. Bydd monitro rheolaidd yn sicrhau cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Yn ogystal â gwella dysgu a gwybodaeth trwy gyfranogi mewn addysg a hyfforddiant, mae AOC yn ymrwymo i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Gymraeg a threftadaeth a diwylliant Cymru ym mhob agwedd ar ei fusnes a'i wasanaethau. Mae AOC yn cefnogi'n llawn yr egwyddor o weithle dwyieithog, ac mae wedi sefydlu'r mecanweithiau gofynnol i annog hyrwyddo, defnyddio a gwella sgiliau iaith Gymraeg ei weithlu.

Mae'r tîm Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau Dynol yn parhau i gydlynu, datblygu a gweithredu'r ystod eang o weithgareddau sydd eu hangen i gyflawni nodau strategol y sefydliad ac i fodloni gofynion statudol mewn perthynas â'r Gymraeg a Dwyieithrwydd. Caiff y Gymraeg a Dwyieithrwydd ei fonitro a'i graffu arno ar lefel Pwyllgorau gan Bwyllgor Profiad y Dysgwr.

5.4 Datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Mae'r aelodau oedd yn dal swyddi ar adeg cymeradwyo'r adroddiad hwn yn cadarnhau, hyd y gwyddant hwy, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol sy'n anhysbys i archwilwyr AOC; ac mae pob aelod wedi cymryd y camau y dylent fod wedi'u cymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a chanfod a yw archwilwyr y Sefydliad yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cymeradwywyd trwy orchymyn aelodau'r Cyngor ar 22ain Chwefror 2022 a llofnodwyd ar ei ran gan:

John Graystone
Cadeirydd y Llywodraethwyr

……..

Cynghorwyr proffesiynol

Archwilwyr allanol:
Cyfrifwyr Siartredig Baker Knoyle, Merthyr Tudful

Archwilwyr mewnol:
TIAA, Caerdydd

Bancwyr:
Handelsbanken, Caerdydd

Cyfreithwyr:
Eversheds Sutherland, Caerdydd

Datganiad ynghylch Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol

Mae'r Sefydliad yn ymrwymo i arddangos yr arferion gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol.

Mae'r crynodeb hwn yn disgrifio dull y Sefydliad o weithredu'r egwyddorion a amlinellir yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol ym mis Gorffennaf 2018. Ei bwrpas yw helpu darllenwyr y cyfrifon i ddeall sut mae'r egwyddorion wedi'u gweithredu.

Ym marn y Cyngor, mae'r Sefydliad yn cydymffurfio â holl ofynion y Cod i'r graddau y maent yn berthnasol i'r Sector Addysg Bellach, ac mae wedi cydymffurfio â hwy trwy gydol y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2022.

Y CYNGOR

Rhestrir isod yr aelodau a fu'n gwasanaethu ar y Cyngor yn ystod y flwyddyn:-

Enw	Statws a Chategori	Dyddiad Derbyn (os yw ar ôl 1 Awst 2021) neu ddyddiad Ymddiswyddo	Aelod o'r Pwyllgor	Cyfarfodydd y Cyngor a fynychwyd (allan o 5 i gyd)
John Graystone	Cadeirydd; Penodedig		Chwilio (Cadeirydd)	5
Toni Schiavone	Is-gadeirydd; Llywodraethwr Rhanbarthol Etholedig	Ymddiswyddodd, 31/3/2022	Adnoddau, Chwilio	2 (allan o 4)
Sonia Reynolds	Is-gadeirydd; Llywodraethwr Rhanbarthol Etholedig		Archwilio, Chwilio	3
Dona Lewis	Penodedig		Adnoddau	4
Chris Franks	Llywodraethwr Aelodau Etholedig		Archwilio (Cadeirydd)	5
Marion Burke	Penodedig		Profiad Dysgwyr	1 (allan o 3)
Cathy Clark	Dysgwr-Lywodraethwr Etholedig		Profiad Dysgwyr	5
Caroline Davies	Llywodraethwr Rhanbarthol Etholedig		Profiad Dysgwyr (Cadeirydd), Archwilio, Chwilio	4
Jan Tiley	Dysgwr-Lywodraethwr Etholedig		Adnoddau	5
Sam Emmett	Staff-lywodraethwr Etholedig	Penodwyd, 14/6/2022	Profiad Dysgwyr	1 (allan o 1)
Judith Evans	Penodedig		Adnoddau	5
Nicole Kinnaird	Staff-lywodraethwr Etholedig	Penodwyd, 14/6/2022	Adnoddau	0 (allan o 1)
Sion Aled Owen	Llywodraethwr Rhanbarthol Etholedig	Penodwyd, 5/11/2021	Profiad Dysgwyr	4 (allan o 4)
Jenni Jones-Annetts	Dysgwr-Lywodraethwr Etholedig		Profiad Dysgwyr	4
Stephen Nicholls	Penodedig		Adnoddau (Cadeirydd)	5
Suzanne Samuel	Penodedig	Ymddiswyddodd, 6/11/2021	Profiad Dysgwyr	1 (allan o 1)
Gareth Cork	Staff-lywodraethwr Etholedig	Ymddiswyddodd, 30/4/2022	Adnoddau	2 (allan o 4)
Steve David	Staff-lywodraethwr Etholedig	Ymddiswyddodd, 30/4/2022	Profiad Dysgwyr	0 (allan o 4)
Timothy Palazon	Penodedig		Profiad Dysgwyr	3

Salamatu Fada	Penodedig		Profiad Dysgwyr	4
Victory Ezeofor	Llywodraethwr Rhanbarthol Etholedig		Archwilio	5
Carl Hoskins	Llywodraethwr Rhanbarthol Etholedig	Ymddiswyddodd, 23/5/2022	Adnoddau	0 (allan o 4)

Mae'r Cyngor yn cael gwybodaeth reolaidd ac amserol ynghylch perfformiad ariannol cyffredinol y Sefydliad, ynghyd â gwybodaeth arall megis perfformiad yn erbyn targedau ariannu, gwariant cyfalaf arfaethedig, materion ynghylch ansawdd a materion yn ymwneud â phersonél, megis rhai sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch a'r amgylchedd. Mae'r Cyngor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn, ac yn ystod 2021-22 cyfarfu pump o weithiau.

Mae'r Cyngor yn gwneud ei waith trwy bedwar pwyllgor: Archwilio, Profiad Dysgwyr, Adnoddau a Chwilio. Mae gan bob pwyllgor gylch gorchwyl, sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor. Mae cofnodion llawn pob cyfarfod o'r Cyngor, ac eithrio'r rhai y bydd y Cyngor yn eu hystyried yn gyfrinachol, ar gael ar wefan y sefydliad neu gan Glerc y Cyngor yn:

Stephen Thomas
Clerc y Cyngor
AOC
7 Iard y Cowper
Ffordd Curran
Caerdydd CF10 5NB

Mae Clerc y Cyngor yn cynnal cofrestr o fuddiannau ariannol a phersonol aelodau'r Cyngor. Gellir gweld y gofrestr yn y cyfeiriad uchod.

Gall aelodau'r Cyngor ofyn am gyngor proffesiynol annibynnol ynghylch cyflawni eu dyletswyddau a bydd y Sefydliad yn talu am hynny a gallent droi at Glerc y Cyngor, sy'n atebol i'r Cyngor o ran sicrhau y cydymffurfir â'r holl weithdrefnau a'r rheoliadau perthnasol. Mae penodi, gwerthuso a diswyddo'r Clerc yn faterion i'r Cyngor cyfan. Rhoddir agendâu, papurau ac adroddiadau ffurfiol i'r Cyngor ac aelodau'r Pwyllgor yn brydlon, cyn cyfarfodydd y Cyngor. Caiff aelodau'r Cyngor eu briffio yn ôl y galw hefyd.

Mae gan y Cyngor elfen anweithredol gref ac annibynnol ac nid oes unrhyw unigolyn na grŵp yn llywodraethu ei broses gwneud penderfyniadau: nid oes gan yr un unigolyn reolaeth sylweddol wedi'i chofrestru ar ei gyfer yn Nhŷ'r Cwmnïau. Mae'r Cyngor yn ystyried bod pob un o'i aelodau yn annibynnol ar y rheolwyr ac nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fusnes neu berthynas arall a allai amharu'n sylweddol ar eu gallu i farnu'n annibynnol. Mae'r Pwyllgorau yn cynnwys aelodau'r Cyngor, y mae un ohonynt yn Gadeirydd y Pwyllgor, ac aelodau cyfetholedig. Dyma'r aelodau cyfetholedig a fu'n gwasanaethu yn ystod 2021-22: Paul Charlton, Graham Price, Guy Wallace Smith (Pwyllgor Archwilio); Jeremy Gass ac Ashok Chopra (Pwyllgor Profiad Dysgwyr); Susan Roberts (Pwyllgor Adnoddau). Yn ychwanegol, gellir cynnull grwpiau gorchwyl a gorffen eraill yn ôl disgresiwn y Cyngor.

Mae rolau Cadeirydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr wedi'u gwahanu, felly mae eu cyfrifoldebau wedi'u rhannu'n glir.

Cyfansoddiad y Cyngor

Pan fabwysiadwyd Erthyglau Cymdeithasu diwygiedig adeg ail-enwi'r Sefydliad yn hwyr yn 2016, ffurfiwyd Cyngor newydd hefyd. Roedd y rhan fwyaf o aelodau'r Cyngor hyd at 31 Mawrth 2017 wedi'u penodi i'w rolau. O 1 Ebrill 2017, roedd 12 o aelodau etholedig (wedi'u henwebu'n amrywiol gan Fforymau Rhanbarthol, aelodau unigol, dysgwyr a staff) a hyd at 8 o aelodau penodedig. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i'w aelodau fel y bo'r angen. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Chod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru 2016.

Datganiad ynghylch Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol (parhau)

Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys tri o aelodau'r Cyngor (ond nid y Cadeirydd, dysgwyr-lywodraethwyr nac aelodau'r Pwyllgor Adnoddau). Mae'r Pwyllgor yn gweithredu yn unol â chylch gorchwyl ysgrifenedig a gymeradwywyd gan y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod unwaith y tymor ac mae'n darparu fforwm ar gyfer adroddiadau gan archwilwyr mewnol ac allanol AOC, ac mae ganddynt hawl i drafod yn annibynnol â'r Pwyllgor, heb i reolwyr AOC fod yn bresennol, os bydd angen hynny. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cael ac yn ystyried adroddiadau gan y Comisiwn Elusennau a Llywodraeth Cymru os byddant yn effeithio ar fusnes AOC.

Mae archwilwyr mewnol y Sefydliad yn monitro'r systemau rheolaeth fewnol, y rheolaethau rheoli risgiau a'r prosesau llywodraethu yn unol â chynllun mewnbwn cytûn, ac yn hysbysu'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio am eu canfyddiadau.

Mae'r rheolwyr yn gyfrifol am weithredu argymhellion archwilio cytûn, a bydd archwilwyr mewnol yn cynnal adolygiadau dilynol rheolaidd i sicrhau bod unrhyw argymhellion o'r fath wedi cael eu gweithredu.

Bydd y Pwyllgor Archwilio hefyd yn cynghori'r Cyngor ynghylch penodi archwilwyr mewnol, rheoleidd-dra a datganiadau ariannol, ac ynghylch eu tâl am waith archwilio a gwaith nad yw'n gysylltiedig ag archwilio.

Mae'r Pwyllgor Chwilio yn gyfrifol am oruchwylio penodi aelodau'r Cyngor, gan wneud argymhellion i'r Cyngor llawn i lenwi'r lleoedd gwag sy'n bodoli. Mae'r Categorïau Amrywiaeth a'r Matrics Sgiliau ar gyfer Llywodraethwyr, sy'n ffurfio rhan o Reolau Sefydlog y Sefydliad, yn llywio arferion recriwtio'r Pwyllgor Chwilio. Penodwyd pob un o'r llywodraethwyr yn 2021/22 drwy gymhwyso'r normau hyn.

RHEOLAETH FEWNOL

Cwmpas y cyfrifoldeb

Mae'r Cyngor yn gyfrifol yn y pen draw am system reolaeth fewnol y Sefydliad ac am adolygu ei heffeithiolrwydd. Fodd bynnag, cynllunnir system o'r fath i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu cyflawni amcanion y busnes, a gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig, nid sicrwydd llwyr, rhag camddatganiadau neu golledion sylweddol.

Mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb beunyddiol i'r Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu, am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cynorthwyo â'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Sefydliad, wrth ddiogelu'r asedau a'r arian cyhoeddus y mae'n gyfrifol yn bersonol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd iddo ef neu iddi hi yn y Memorandwm Ariannol rhwng y Sefydliad a Llywodraeth Cymru. Mae ef neu hi hefyd yn gyfrifol am hysbysu'r Cyngor am unrhyw wendidau neu fethiannau sylweddol gan AOC o ran rheolaeth fewnol

Pwrpas y system rheolaeth fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol yn darparu sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, ynghylch effeithiolrwydd ac mae'n seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau a allai atal polisïau, nodau ac amcanion y Sefydliad rhag cael eu cyflawni, i werthuso'r tebygolrwydd y gwireddir y risgiau hynny a'r effaith petaent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yn y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2022 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

Datganiad ynghylch Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol (parhau)

Y gallu i ymdopi â risg

Mae'r Cyngor wedi adolygu'r risgiau allweddol sy'n wynebu'r Sefydliad, ynghyd â'r rheolaethau gweithredol, ariannol a chydymffurfio a weithredir i liniaru'r risgiau hynny. Mae'r Cyngor o'r farn bod proses ffurfiol barhaus yn ei lle i nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol y Sefydliad. Caiff y broses hon ei hadolygu'n rheolaidd gan y Sefydliad.

Y fframwaith risgiau a rheolaethau

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reoli reolaidd, gweithdrefnau gweinyddol yn cynnwys gwahanu dyletswyddau, a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Yn benodol, mae'n cynnwys:

- Systemau cyllidebu cynhwysfawr â chyllideb flynyddol, sy'n cael ei hadolygu a'i chytuno gan y corff llywodraethu
- Adolygiadau rheolaidd gan y corff llywodraethu o adroddiadau ariannol rheolaidd a blynyddol sy'n nodi'r perfformiad ariannol o gymharu â rhagolygon
- Gosod targedau i fesur perfformiad ariannol a mathau eraill o berfformiad
- Canllawiau rheoli buddsoddiadau cyfalaf wedi'u diffinio'n glir
- Mabwysiadu disgyblaethau rheoli prosiectau ffurfiol, lle bo hynny'n briodol.

Mae gan y Sefydliad wasanaeth archwilio mewnol, sy'n gweithredu yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Caiff gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol ei lywio gan ddadansoddiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Sefydliad, ac mae cynlluniau archwilio mewnol blynyddol yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn. Caiff y dadansoddiad o risgiau a'r cynlluniau archwilio mewnol eu cymeradwyo gan y Cyngor yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Archwilio. O leiaf unwaith y flwyddyn, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn rhoi adroddiad i'r Cyngor ynghylch gweithgarwch archwilio mewnol yn y Sefydliad. Mae'r adroddiad yn cynnwys barn annibynnol yr Archwilydd Mewnol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd system y Sefydliad o reoli risgiau, ei rheolaethau a'i phrosesau llywodraethu.

Adolygu effeithiolrwydd

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad hwnnw o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol ei lywio gan:

- Waith yr archwilwyr mewnol
- Gwaith y rheolwyr gweithredol yn y Sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol
- Sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol y Sefydliad ac archwilwyr Llywodraeth Cymru yn eu llythyrau at reolwyr ac mewn adroddiadau eraill.

Mae'r Prif Weithredwr wedi cael cyngor ynghylch goblygiadau canlyniad ei hadolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Pwyllgor Archwilio, sy'n goruchwylio gwaith yr archwilydd mewnol, ac mae cynllun i ddatrys gwendidau a sicrhau gwelliannau parhaus i'r system yn ei le.

Datganiad ynghylch Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol (parhau)

Bydd yr Uwch Dîm Rheoli yn cael adroddiadau sy'n amlinellu dangosyddion perfformiad a risgiau allweddol, a byddant yn ystyried materion posibl ynghylch rheolaeth a ddaw i'w sylw yn sgil dulliau rhybuddio cynnar, sydd wedi'u hymgorffori o fewn y rhanbarthau ac wedi'u hategu gan hyfforddiant ymwybyddiaeth o risgiau. Bydd yr Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn cael adroddiadau rheolaidd gan archwilwyr mewnol, sy'n cynnwys argymhellion ynghylch gwella. Mae rôl y Pwyllgor Archwilio yn y maes hwn wedi'i gyfyngu i adolygiad ar lefel uchel o drefniadau rheolaeth fewnol. Mae agenda'r Cyngor yn cynnwys eitem reolaidd ynghylch ystyried risgiau a'u rheoli, a bydd yn cael adroddiadau ynghylch hynny gan yr Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r pwyslais ar gael y lefel sicrwydd berthnasol, nid adrodd arnynt trwy eithriad yn unig.

BUSNES GWEITHREDOL

Ar ôl gwneud ymholiadau priodol, mae'r Cyngor yn ystyried bod gan y Sefydliad adnoddau digonol i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld hynny. Oherwydd hynny, mae'n parhau i ddefnyddio sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Cymeradwywyd trwy orchymyn aelodau'r Sefydliad ar 22ain Chwefror 2023 a llofnodwyd ar ei ran gan:

John Graystone
Cadeirydd y Llywodraethwyr

Kathryn Robson
Prif Weithredwr

…….

……

Datganiad y Corff Llywodraethu ynghylch rheoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfiaeth y Sefydliad â thelerau ac amodau ariannu'r Corff Ariannu

Mae'r sefydliad wedi ystyried ei gyfrifoldeb i hysbysu Llywodraeth Cymru am afreoleidd-dra, amhriodoldeb a diffyg cydymffurfiaeth sylweddol â thelerau ac amodau ariannu Llywodraeth Cymru, o dan y Memorandwm Ariannol sydd yn ei le rhwng y Sefydliad a Llywodraeth Cymru. Yn rhan o'n hystyriaeth, rhoesom ystyriaeth briodol i ofynion y Memorandwm Ariannol.

Ar ran y Sefydliad, cadarnhawn ein bod, yn dilyn ymholi priodol a hyd eithaf ein gwybodaeth, yn gallu nodi unrhyw ddefnydd afreolaidd neu amhriodol sylweddol o gyllid gan y Sefydliad, neu ddiffyg cydymffurfio sylweddol â thelerau ac amodau ariannu Llywodraeth Cymru o dan Femorandwm Ariannol y Sefydliad.

Cadarnhawn na ddarganfuwyd unrhyw enghraifft o afreoleidd-dra, amhriodoldeb na diffyg cydymffurfio â thelerau ac amodau ariannu sylweddol hyd yn hyn. Pe nodir unrhyw enghreifftiau yn dilyn dyddiad y datganiad hwn, hysbysir Llywodraeth Cymru am y rhain.

John Graystone
Cadeirydd y Llywodraethwyr

Kathryn Robson
Prif Weithredwr

…….

……

Datganiad ynghylch Cyfrifoldebau Aelodau Cyngor y Sefydliad

Mae'n ofynnol i Aelodau Cyngor y Sefydliad gyflwyno datganiadau ariannol wedi'u harchwilio am bob blwyddyn ariannol.

O fewn telerau ac amodau'r Memorandwm Ariannol y cytunodd Llywodraeth Cymru a'r Sefydliad arno, mae'n ofynnol i'r Sefydliad, drwy ei Brif Weithredwr, baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â *Datganiad o Arferion a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch* 2019, Cyfraith Cwmnïau a Chyfarwyddyd ynghylch Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Sefydliad a'r canlyniad ar gyfer y flwyddyn honno.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r Sefydliad:

- ddewis polisïau cyfrifyddu priodol a'u gweithredu'n gyson
- arfer barn ac amcangyfrifon cadarn sy'n rhesymol ac yn ofalus
- nodi a ddilynwyd Safonau Cyfrifyddu cymwys, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y datganiadau ariannol
- paratoi datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Sefydliad yn parhau i weithredu.

Mae'r Sefydliad yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu â chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, beth yw sefyllfa ariannol y Sefydliad, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Mae'n gyfrifol am gymryd camau sy'n rhesymol agored iddo er mwyn diogelu asedau'r Sefydliad ac atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Cyfrifoldeb y Sefydliad yw cynnal a chadw ei wefan a chywirdeb y wefan. Nid yw'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn, ac felly, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno gyntaf ar y wefan. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae Aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod gwariant ac incwm yn cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan yr arianwyr a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â gofynion yr awdurdodau sy'n eu rheoli. Yn ogystal, maent yn gyfrifol am sicrhau bod arian gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl yn unol â'r Memorandwm Ariannol â Llywodraeth Cymru ac unrhyw amodau eraill y gall Llywodraeth Cymru eu rhagnodi o bryd i'w gilydd. Rhaid i Aelodau'r Cyngor sicrhau bod dulliau rheoli arian a rheolaethau priodol yn eu lle er mwyn diogelu arian cyhoeddus ac arian arall ac i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n iawn. Yn ogystal, mae Aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau rheolaeth economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a gwariant y Sefydliad, fel na fydd y buddion a ddylai ddeillio o ddefnydd Llywodraeth Cymru o arian cyhoeddus yn cael eu peryglu.

Yn unol â Chyfraith Cwmnïau, fel Aelodau'r Cyngor, rydym yn ardystio'r canlynol:

- cyn belled ag yr ydym yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni yn ymwybodol ohoni; ac
- fel Aelodau o Gyngor y Sefydliad, rydym wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y Sefydliad yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae Aelodau'r Cyngor yn ymwybodol bod gan y Sefydliad gyfrifoldeb o dan y Ddeddf Elusennau i ddangos bod ganddo nodau elusennol sy'n bodloni'r gofyniad budd cyhoeddus ac sydd felly yn elusennol. Mae Aelodau'r Cyngor yn cadarnhau eu bod wedi rhoi sylw priodol i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth ystyried, cynllunio a gweithredu gweithgareddau'r elusen, ac wrth arfer eu pwerau a'u dyletswyddau y mae'r canllawiau yn berthnasol iddynt, a'u bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd o dan Adran 4 Ddeddf Elusennau 2006. Fel Cyngor, rydym yn credu bod amcanion y Sefydliad i hyrwyddo addysg, yn arbennig ar gyfer pobl ifanc ac oedolion, yng Nghymru, yn elusennol ac er budd y cyhoedd. Yn ychwanegol, yn ein barn ni, nid oes unrhyw anfantais neu niwed yn deillio o'r gwaith a wneir gan y Sefydliad, ac nid ydym yn ymwybodol o unrhyw farn gyffredin ymysg eraill y gallai anfantais neu niwed o'r fath ddigwydd.

Datganiad ynghylch Cyfrifoldebau Aelodau Cyngor y Sefydliad (parhau)

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch 2019, a Deddf Cwmnïau 2006.

Cymeradwywyd trwy orchymyn Aelodau Cyngor y Sefydliad ar 22ain Chwefror 2023 a llofnodwyd ar ei ran gan:

John Graystone
Cadeirydd y Llywodraethwyr

.....

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Gorff Llywodraethu (Cyngor) Addysg Oedolion Cymru

CWMNI CYFYNGEDIG TRWY WARANT - 3109524

Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn

Yn ein barn ni, mae datganiadau ariannol Addysg Oedolion Cymru:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y Sefydliad fel yr oeddent ar 31 Gorffennaf 2022, ac o incwm a gwariant y sefydliad a'i lifoedd arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, yn cynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon", a'r gyfraith berthnasol);
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion y Datganiad o Arferion a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Chyfarwyddyd ynghylch Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol a gynhwyswyd yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2022 (yr "Adroddiad Blynyddol"), sy'n cynnwys y Fantolen fel ag yr oedd ar 31 Gorffennaf 2022; y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; y Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; y Datganiad Llifoedd Arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, sy'n cynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol a gwybodaeth esboniadol arall.

Sail y farn

Cynhaliom ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU ("ISAs (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU ymhellach yn yr adran ar gyfrifoldebau'r Archwilwyr am yr archwiliad o'r datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'n barn.

Annibyniaeth

Rydym wedi parhau'n annibynnol ar y sefydliad yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas gyda'r materion canlynol y mae Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd i chi arnynt pan:

- nid yw defnydd y Corff Llywodraethu o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r Corff Llywodraethu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r sefydliad i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Gorff Llywodraethu (Cyngor) Addysg Oedolion Cymru (parhau)

Fodd bynnag, gan na ellir rhagweld holl ddigwyddiadau neu amodau'r dyfodol, nid yw'r datganiad hwn yn warantiad o allu'r Sefydliad i barhau fel busnes gweithredol.

Adrodd ar wybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr holl wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilwyr arnynt. Y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi unrhyw farn archwilio, nac, ac eithrio i'r graddau y datgenir hynny'n benodol yn yr adroddiad hwn, unrhyw fath o sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb perthnasol rhwng y wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a ddysgwyd gennym yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall bod camddatganiad perthnasol yn y wybodaeth hon. Os ydym yn nodi anghysondeb perthnasol neu gamddatganiad perthnasol, mae'n ofynnol i ni roi gweithdrefnau ar waith i ganfod a oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad perthnasol o ran y wybodaeth arall. Os deuwn i'r casgliad, ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, fod camddatganiad perthnasol o ran y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd am y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i adrodd amdano ar sail y cyfrifoldebau hyn.

Cyfrifoldebau am y datganiadau ariannol a'r archwiliad

Cyfrifoldebau'r Corff Llywodraethu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Corff Llywodraethu ar dudalennau 20 a 21, mae'r Corff Llywodraethu (sydd hefyd yn gyfarwyddwr y sefydliad at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith cymwys ac am ei fodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun gwir a theg. Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol hefyd am y fath reolaeth fewnol y maent yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camddatganiad perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am asesu gallu'r sefydliad i barhau'n fusnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n briodol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol a chan ddefnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Corff Llywodraethu naill ai'n bwriadu diddymu'r Sefydliad neu roi terfyn ar weithrediadau, neu oni bai nad oes ganddo ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol, yn eu cyfanrwydd, yn rhydd rhag camddatganiad perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warantiad y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol os oes un. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad a chânt eu hystyried yn berthnasol os, ar eu pennau eu hunain neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd a wneir gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn. Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilwyr.

Mae anghysondebau, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rydym yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag anghysondebau, gan gynnwys twyll. Mae i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod anghysondebau, gan gynnwys twill wedi eu manylu isod:

- *Nodwyd meysydd o gyfreithiau a rheoliadau y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol o'n profiad yn y sector trwy drafod gyda'r Swyddogion a rheolwyr eraill (fel sy'n ofynnol gan safonau archwilio).*

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Gorff Llywodraethu (Cyngor) Addysg Oedolion Cymru (parhau)

- *Gwnaethom ystyried cyfreithiau a rheoliadau mewn meysydd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol gan gynnwys adroddiadau ariannol (gan gynnwys deddfwriaeth undebau llafur cysylltiedig) a deddfwriaeth trethiant. Gwnaethom ystyried y graddau y cydymffurfir â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hynny fel rhan o'n gweithdrefnau ar yr eitemau datganiadau ariannol cysylltiedig.*
- *Nodwyd meysydd o gyfreithiau a rheoliadau y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol o'n profiad yn y sector trwy drafod gyda'r Swyddogion a rheolwyr eraill (fel sy'n ofynnol gan safonau archwilio).*
- *Gwnaethom ystyried cyfreithiau a rheoliadau mewn meysydd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol gan gynnwys adroddiadau ariannol (gan gynnwys deddfwriaeth undebau llafur cysylltiedig) a deddfwriaeth trethiant. Gwnaethom ystyried y graddau y cydymffurfir â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hynny fel rhan o'n gweithdrefnau ar yr eitemau datganiadau ariannol cysylltiedig.*
- *Ac eithrio unrhyw ddiffyg cydymffurfio hysbys neu bosibl, ac fel sy'n ofynnol gan safonau archwilio, cyfyngwyd ein gwaith mewn perthynas â'r rhain i ymholiadau'r Swyddogion.*
- *Gwnaethom gyfleu cyfreithiau a rheoliadau a nodwyd i'r tîm, a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfio drwy gydol yr archwiliad.*
- *Aethom i'r afael gyda'r risg o dwyll drwy i reolwyr ddiystyru rheolaethau, trwy brofi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes.*

Cynlluniwyd ein gweithdrefnau archwilio i ymateb i risgiau o gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol, gan gydnabod bod y risg o beidio â chanfod camddatganiad perthnasol oherwydd twyll yn uwch na'r risg o beidio â chanfod un sy'n deillio o gamgymeriad, gan y gallai twyll gynnwys celu bwriadol gan , er enghraifft, ffugio, camliwio neu drwy gydgynllwynio. Mae cyfyngiadau cynhenid yn y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir a'r achos pellach o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol y byddwn o ddod yn ymwybodol ohono.

Defnyddio'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn, yn cynnwys y barnau, wedi'i baratoi ar gyfer Corff Llywodraethu'r sefydliad yn unig fel corff, yn unol ag erthyglau llywodraethu'r sefydliad ac nid at unrhyw ddiben arall. Nid ydym, wrth fynegi'r farn hon, yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall nac ar gyfer unrhyw unigolyn arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu a allai gael gafael arno, ac eithrio lle y cytunir yn benodol drwy ein cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw.

Adroddiad gofynnol arall

Barn ar faterion eraill a ragnodir yng Nghod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach 2016 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae arian a wariwyd o grantiau Llywodraeth Cymru a chronfeydd eraill o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan y Sefydliad at ddibenion penodol wedi cael eu defnyddio'n briodol at y dibenion hynny ac, os yw'n briodol, wedi cael eu rheoli yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol; ac mae'r incwm wedi'i ddefnyddio yn unol â'r memorandwm ariannol gyda Llywodraeth Cymru.

Richard Phillips FCCA
Uwch Archwilydd Statudol
Dros ac ar ran:
Baker Knoyle Accountancy Limited
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Canolfan Fusnes Orbit, Merthyr Tudful, CF48 lDL

Dyddiad:

Datganiad o Incwm Cynhwysfawr

INCWM	Nodiadau	2022	2021
		£'000	£'000
Grantiau Llywodraeth Cymru	**2**	7,819	6,584
Ffïoedd dysgu a chontractau addysg	**3**	346	336
Grantiau a chontractau eraill	**4**	542	388
Incwm Arall	**5**	19	9
Incwm Canghennau	**6**	13	3
Incwm o Fuddsoddi	**7**	3	2
Incwm Cyllid Pensiwn	**8**	-	-
Rhoddion a Gwaddolion	**9**	-	-
Cyfanswm Incwm		**8,742**	**7,322**
GWARIANT			
Costau staff	**10**	7,489	6,303
Treuliau gweithredu eraill	**12**	1,800	1,254
Dibrisiant	**16**	147	143
Llog a chostau ariannol eraill	**13**	86	85
Gwariant Canghennau	**12**	13	8
Cyfanswm Gwariant		**9,535**	**7,793**
(Diffyg)/Gwarged cyn enillion a cholledion eraill	**15**	**(793)**	**(471)**
Elw/(colled) ar waredu asedau		-	-
(Diffyg)/Gwarged cyn treth		**(793)**	**(471)**
Trethiant	**14**	-	-
(Diffyg)/Gwarged ar gyfer y flwyddyn		**(793)**	**(471)**
Symudiad yn y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn	**27**	-	-
Elw/(colled) ar fuddsoddiadau	**17**	(80)	271
Elw/(colled) actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwı	**33**	8,623	1,596
Cyfanswm Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		**7,750**	**1,396**
Cynrychiolwyd gan:			
Incwm cynhwysfawr cyfyngedig		-	-
Incwm cynhwysfawr anghyfyngedig		7,830	1,125
Incwm cynhwysfawr gwaddolion		(80)	271
		7,750	**1,396**

Mae'r datganiad o incwm cynhwysfawr yn ymwneud â gweithgareddau parhaus.

Datganiad o Newidiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn

	Cronfa Incwm a Gwariant wrth Gefn		Cronfa wrth Gefn Gyfyngedig		Cyfanswm
	Gwaddol £'000	Arall £'000	Gwaddol £'000	Arall £'000	£'000
Balans ar 1af Awst 2020	**318**	**(2,812)**	**971**	**10**	**(1,513)**
Gwarged/(diffyg) o'r cyfrif incwm a gwariant	-	(471)	-	-	**(471)**
Incwm cynhwysfawr arall	244	1,596	27	-	**1,867**
Trosglwyddo rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn	-	-	-	-	-
Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	**244**	**1,125**	**27**	**-**	**1,396**
Balans ar 31ain Gorffennaf 2021	**562**	**(1,687)**	**998**	**10**	**(117)**
Gwarged/(diffyg) o'r cyfrif incwm a gwariant	-	(793)	-	-	**(793)**
Incwm cynhwysfawr arall	(67)	8,623	(13)	-	**8,543**
Trosglwyddo rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn	-	-	-	-	-
Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	**(67)**	**7,830**	**(13)**	**-**	**7,750**
Balans ar 31ain Gorffennaf 2022	**495**	**6,143**	**985**	**10**	**7,633**

Mantolen ar 31 Gorffennaf

	Nodiadau	2022 £'000	2021 £'000
Asedau anghyfredol			
Asedau Sefydlog Diriaethol	**16**	761	792
Asedau Gwaddolion	**17**	1,479	1,559
		2,240	**2,351**
Asedau Cyfredol			
Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	**18**	374	532
Arian parod ac arian cywerth	**25**	5,904	5,215
		6,278	**5,747**
Credydwyr - symiau i'w talu o fewn blwyddyn	**19**	**(3,106)**	**(2,602)**
Asedau Cyfredol Net		**3,172**	**3,145**
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		**5,412**	**5,496**
Credydwyr - symiau i'w talu ar ôl mwy na blwyddyn	**20**	(170)	(212)
Darpariaethau			
Rhwymedigaethau budd-daliadau diffiniedig	**21**	2,410	(5,376)
Darpariaethau eraill	**21**	(19)	(25)
Cyfanswm asedau net		**7,633**	**(117)**
Cronfeydd wrth Gefn Cyfyngedig			
Gwaddolion	**23**	1,148	1,215
Arall	**26**	10	10
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn cyfyngedig		**1,158**	**1,225**
Cronfeydd wrth Gefn Anghyfyngedig			
Gwaddolion	**23**	331	344
Cyfrif incwm a gwariant	**26**	6,144	(1,686)
Cronfa wrth Gefn Ailbrisio	**27**	-	-
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig		**6,475**	**(1,342)**
Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn		**7,633**	**(117)**

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 25 - 52 ac fe'u hawdurdodwyd i'w cyhoeddi gan y Corff Llywodraethu ar 22 Chwefror 2023 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran ar y dyddiad hwnnw gan:-

John Graystone
Cadeirydd y Llywodraethwyr

Kathryn Robson
Prif Weithredwr

DATGANIAD O LIFOEDD ARIAN PAROD

	Nodiadau	2022 £'000	2021 £'000
Llif arian o weithgareddau gweithredu			
Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn		(793)	(471)
Addasiad ar gyfer eitemau anariannol			
Dibrisiant	**16**	147	143
(Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr	**18**	158	(375)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr o fewn un flwyddyn	**19**	504	1,239
Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr ar ôl un flwyddyn	**20**	(42)	88
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau	**21**	(6)	(10)
Costau pensiwn llai cyfraniadau sy'n daladwy	**33**	837	699
Addasiad ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu ariannu			
Llog derbyniadwy		(3)	(2)
Llog taladwy		-	-
Llif arian net o weithgareddau gweithredu		**802**	**1,311**
Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi			
Elw o werthu asedau sefydlog		-	-
Llog derbyniadwy		3	2
Incwm o waddolion	**23**	4	3
Taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog	**16**	(116)	(184)
Taliadau a wnaed i gaffael asedau gwaddol	**17**	-	(109)
Elw o werthu asedau gwaddol	**17**	-	126
Tynnu o waddolion	**23**	-	-
		(109)	**(162)**
Llifoedd arian o weithgareddau ariannu			
Llog a dalwyd		-	-
Benthyciadau diogel newydd		-	-
Ad-daliadau symiau a fenthyciwyd		-	-
		-	**-**
Cynnydd / (gostyngiad) mewn arian parod ac arian cywerth yn y flwyddyn		**693**	**1,149**
Arian parod ac arian cywerth ar ddechrau'r flwyddyn	**24**	5,276	4,127
Arian parod ac arian cywerth ar ddiwedd y flwyddyn	**24**	5,969	5,276

Nodiadau i'r Cyfrifon

1. Datganiad ynghylch y polisïau cyfrifyddu a'r technegau amcangyfrif

Mae'r polisïau cyfrifyddu canlynol wedi'u gweithredu'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn berthnasol mewn perthynas â'r datganiadau ariannol.

Sail Paratoi'r Cyfrifon

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019 (SORP AB AU 2019), y Cyfarwyddyd ynghylch Cyfrifon Colegau ar gyfer 2020 i 2021 ac yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 – "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" (FRS 102) a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r Sefydliad yn endid budd cyhoeddus ac, felly, mae wedi gweithredu gofynion budd cyhoeddus perthnasol FRS 102.

Mae paratoi datganiadau ariannol yn unol â FRS 102 yn gofyn am ddefnyddio rhai amcangyfrifon cyfrifyddu pwysig. Hefyd, mae'n ei gwneud yn ofynnol i reolwyr arfer eu barn wrth weithredu polisïau cyfrifyddu'r Sefydliad.

Sail y cyfrifyddu

Paratoir y datganiadau ariannol yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol fel y'i haddaswyd trwy ailbrisio asedau sefydlog penodol.

Sail Cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys y Sefydliad a'i Ganghennau am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2022. Mae trafodion rhwng grwpiau wedi'u dileu a chymhwysir polisïau cyfrifyddu unffurf ar draws y grŵp at ddibenion y datganiadau ariannol cyfunol.

Busnes Gweithredol

Mae gweithgareddau'r Sefydliad, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad a'i berfformiad yn y dyfodol, wedi'u nodi yn yr Adroddiad Strategol. Mae sefyllfa ariannol y Sefydliad, ei lif arian, ei hylifedd a'i fenthyciadau wedi'u cyflwyno yn y Datganiadau Ariannol a'r Nodiadau ategol.

Ar ôl adolygu rhagolygon a rhagamcanion ariannol y Sefydliad, mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn y bydd gan y Sefydliad gronfeydd digonol i fodloni ei rwymedigaethau fel y deuant yn ddyledus yn ystod y cyfnod o 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol (y cyfnod asesu busnes gweithredol). O ganlyniad, mae'r Ymddiriedolwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Cydnabod incwm

Cyllid grant refeniw

Mae grantiau refeniw'r Llywodraeth yn cynnwys grantiau rheolaidd gan gyrff cyllido a grantiau eraill ac maent wedi'u cynnwys o dan y model cronnus fel y caniateir gan FRS 102. Caiff grantiau rheolaidd cyrff cyllido eu mesur yn unol ag amcangyfrifon gorau ar gyfer cyfnod yr hyn sy'n dderbyniadwy ac maent yn dibynnu ar y llif incwm penodol dan sylw. Gwneir addasiadau ar gyfer unrhyw dangyflawni yn y Gyllideb Addysg Oedolion ac adlewyrchir hynny yn lefel y grant rheolaidd a nodir yn y cyfrif incwm a gwariant. Caiff yr incwm grant terfynol ei bennu fel arfer trwy broses gysoni diwedd blwyddyn gyda'r corff cyllido wedi i'r flwyddyn ddod i ben, ac yn sgil canlyniadau unrhyw archwiliadau o gyllid.

Mae'r grant rheolaidd gan Lywodraeth Cymru (LlC) yn cynrychioli'r dyraniadau cyllid a briodolir i'r flwyddyn ariannol gyfredol a chaiff ei gredydu yn uniongyrchol i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Datganiad o bolisïau cyfrifyddu (parhau)

Lle caiff rhan o grant y llywodraeth ei gohirio, cydnabyddir yr elfen ohiriedig fel incwm gohiriedig o fewn credydwyr ac fe'i dyrennir ymhlith credydwyr sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn a chredydwyr sy'n ddyledus wedi mwy nag un flwyddyn, fel y bo'n briodol.

Cydnabyddir grantiau o ffynonellau heblaw'r llywodraeth mewn incwm pan fydd hawl gan y Sefydliad i'r incwm a bydd amodau yn gysylltiedig â pherfformiad wedi'u bodloni. Ystyrir incwm a dderbynnir cyn bodloni amodau perfformiad yn incwm gohiriedig o fewn y credydwyr ar y fantolen ac fe'i rhyddheir i incwm wrth i'r amodau gael eu bodloni.

Cyllid grant cyfalaf

Caiff grantiau cyfalaf y llywodraeth eu cyfalafu, eu dal fel incwm gohiriedig a'u cydnabod mewn incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased, o dan y model cronnus fel y caniateir gan FRS 102. Caiff grantiau cyfalaf, anllywodraethol, eraill eu cydnabod mewn incwm pan fydd hawl gan y Sefydliad i'r arian, yn amodol ar fodloni unrhyw amodau perfformiad. Caiff incwm a dderbynnir cyn i'r amodau perfformiad gael eu bodloni ei gydnabod fel incwm gohiriedig o fewn y credydwyr ar y Fantolen a'i fe'i rhyddheir i incwm wrth i amodau gael eu bodloni.

Incwm o ffioedd

Caiff incwm o ffioedd dysgu ei ddatgan ar ffurf gros, heb ystyried unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt, a chaiff ei gydnabod yn y cyfnod y caiff ei dderbyn.

Incwm o fuddsoddi

Caiff yr holl incwm o adneuon tymor byr ei gredydu i'r cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y caiff ei ennill ar sail swm sy'n dderbyniadwy. Caiff incwm o gronfeydd gwaddol diben cyfyngedig sydd heb ei wario yn unol â chyfyngiadau'r gwaddol yn y cyfnod ei drosglwyddo o'r cyfrif incwm a gwariant i incwm cronedig o fewn cronfeydd gwaddol

Trefniadau fel asiant

Bydd y Sefydliad, mewn rhai achosion, yn gweithredu fel asiant o ran casglu a thalu'r cronfeydd cymorth yn ôl disgresiwn, sef Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn (FCF). Nid yw'r taliadau cysylltiedig gwerth £4k (2021: £1k) a gafwyd gan LlC ac a dalwyd yn dilyn hynny i fyfyrwyr wedi'u cynnwys yn incwm a gwariant y Sefydliad, lle y bo'r Sefydliad wedi'i amlygu i'r risg leiaf neu'n mwynhau'r budd economaidd lleiaf yn gysylltiedig â'r trafodyn (nodyn 32).

Lle y bo'r Sefydliad wedi talu trydydd parti yn uniongyrchol, mae'r incwm a'r gwariant cysylltiedig wedi'u cynnwys o fewn incwm a gwariant y Sefydliad (nodyn 32).

Cyfrifo ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth

Caiff buddion ôl-gyflogaeth i weithwyr y Sefydliad eu darparu gan y Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS) a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS). Mae TPS ac LGPS yn gynlluniau buddion diffiniedig, sy'n cael eu hariannu'n allanol a'u contractio allan o Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth.

Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS)

Mae'r TPS yn gynllun nas ariennir. Caiff cyfraniadau i'r TPS eu cyfrifo er mwyn gwasgaru cost pensiynau dros oes waith y cyflogedigion yn y Sefydliad yn y fath fodd fel bydd cost pensiynau yn ganran sylweddol wastad o'r gyflogres bensiynadwy bresennol ac yn y dyfodol. Pennir y cyfraniadau hyn gan actiwarïaid cymwysedig ar sail prisiadau gan ddefnyddio dull o gyfrifo buddion arfaethedig.

Mae'r TPS yn gynllun pensiwn aml-gyflogwr ac nid oes gwybodaeth ddigonol ar gael i ddefnyddio cyfrifyddu buddion diffiniedig. Felly, mae'r TPS yn cael ei drin fel cynllun cyfraniadau diffiniedig a chaiff y cyfraniadau eu cydnabod fel traul yn y datganiad incwm yn y cyfnodau pan fo cyflogeion yn darparu eu gwasanaeth.

Datganiad o bolisïau cyfrifyddu (parhau)

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) Caerdydd a'r Fro a Gwynedd

Mae'r LGPS yn gynllun a ariennir. Caiff asedau'r LGPS eu mesur gan ddefnyddio gwerthoedd teg terfynol. Caiff rhwymedigaethau'r LGPS eu mesur gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu credyd uned a'u disgowntio gan ddefnyddio cyfradd adennill gyfredol bond corfforaethol o ansawdd uchel sydd â'r un tymor ac arian cyfredol â'r rhwymedigaeth. Ceir prisiadau actiwarïaid bob tair blynedd o leiaf a'u diweddaru yn ôl dyddiad y fantolen. Y symiau a godir ar y gwarged gweithredu yw costau presennol y gwasanaeth a chostau cyflwyniadau i gynlluniau, newidiadau i fuddion, setliadau a chwtogiadau. Cânt eu cynnwys fel rhan o gostau staff fel y digwyddant.

Yn ogystal, cydnabyddir llog net ar y rhwymedigaeth/ased budd diffiniedig net yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ac mae'n cynnwys cost y llog yn gysylltiedig ag ymrwymiad y budd diffiniedig ac incwm llog ar asedau'r cynllun, wedi'u cyfrifo trwy luosi gwerth teg asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod â'r gyfradd a ddefnyddir i ddisgowntio ymrwymiadau'r budd. Caiff y gwahaniaeth rhwng yr incwm llog ar asedau'r cynllun a'r adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun ei gydnabod mewn llog a chostau cyllid eraill.

Caiff enillion a cholledion actiwaraidd eu cydnabod ar unwaith mewn enillion a cholledion actiwaraidd.

Buddion cyflogaeth tymor byr

Cydnabyddir buddion cyflogaeth tymor byr, fel cyflogau ac absenoldeb â thâl (tâl gwyliau), fel traul yn ystod y flwyddyn pan fo cyflogeion yn darparu eu gwasanaeth i'r Sefydliad. Caiff unrhyw fuddion nas defnyddir eu cronni a'u mesur fel y swm ychwanegol y disgwylia'r Sefydliad ei dalu o ganlyniad i'r hawl nas defnyddiwyd.

Pensiynau Uwch

Daeth costau pensiwn uwch i ran y Sefydliad yn ystod y flwyddyn, sef £6k mewn perthynas â 3 chyn-aelod o staff Coleg Harlech a adawodd ei gyflogaeth, trwy drefniant, cyn yr uno gydag WEA (Gogledd Cymru) yn 2001. Yn sgil ansicrwydd ynghylch disgwyliad oes, ni ellir proffilio'r ddarpariaeth pensiwn uwch. Gosodir y costau hyn yn erbyn y ddarpariaeth pensiwn uwch yn y fantolen.

Asedau sefydlog diriaethol

Mae asedau sefydlog diriaethol yn cael eu datgan ar gost llai dibrisiant cronedig a cholledion amhariad cronedig. Caiff eitemau penodol o asedau sefydlog a oedd wedi eu hailbrisio i werth teg ar y dyddiad trosglwyddo i'r SORP AB AU, neu cyn y dyddiad hwnnw, eu mesur ar sail cost dybiedig, sef y swm wedi ei ailbrisio ar y dyddiad ailbrisio hwnnw.

Lle mae gan rannau o ased sefydlog oes ddefnyddiol wahanol, cyfrifir amdanynt fel eitemau ar wahân o asedau sefydlog.

Pan fo asedau sefydlog diriaethol yn cael eu caffael â chymorth grantiau penodol y Llywodraeth, cânt eu cyfalafu a'u dibrisio fel y nodir uchod. Caiff y grantiau Llywodraeth gysylltiedig eu credydu i gyfrif incwm gohiriedig o fewn y credydwyr, a chânt eu rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased cysylltiedig ar sail systematig sy'n gyson â'r polisi dibrisiant. Dyrennir yr incwm gohiriedig ymhlith credydwyr sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn a'r rhai sy'n ddyledus wedi mwy nag un flwyddyn.

Tir ac Adeiladau

Caiff adeiladau rhydd-ddaliadol a phrydles hir eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:-

- Rhydd-ddaliad — 20-50 mlynedd / 2%-5% y flwyddyn
- Les-ddaliad — 50 mlynedd / 2% y flwyddyn
- Gwelliannau i Eiddo — 5 mlynedd / 20% y flwyddyn

Ni ddibrisir tir rhydd-ddaliadol gan yr ystyrir bod ganddo oes ddefnyddiol amhenodol.

Datganiad o bolisïau cyfrifyddu (parhau)

Caiff tir, adeiladu a gwelliannau i eiddo eu datgan yn y fantolen, naill ai yn ôl cost eu prynu neu'r gost ailbrisio llai costau dibrisiant. Mae'r gost yn cynnwys pris prynu gwreiddiol yr ased a'r costau a briodolir i'r gwaith o sicrhau bod cyflwr yr ased yn briodol ar gyfer ei ddefnydd bwriadedig.

Caiff adeiladau rhydd-ddaliadol ac adeiladau les-ddaliadol hir eu dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig i'r Sefydliad, sef rhwng 20 a 50 mlynedd. Mae gan y Sefydliad bolisi o ddibrisio addasiadau mawr i adeiladau dros gyfnod eu hoes economaidd ddefnyddiol, sef rhwng 20 a 50 mlynedd.

Cynhelir adolygiad o leihad yng ngwerth ased sefydlog os bydd digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn awgrymu'r posibilrwydd na ellir adennill swm cario ymlaen unrhyw ased sefydlog.

Yn sgil mabwysiadu FRS 102, dilynodd y Sefydliad y ddarpariaeth drosiannol, sef cadw llyfrwerth tir ac adeiladau.

Gwariant dilynol ar asedau sefydlog diriaethol presennol

Pan fo gwariant sylweddol ar asedau sefydlog diriaethol yn sgil eu prynu yn gychwynnol, caiff ei godi ar incwm yn y cyfnod y caiff ei wario, oni bai ei fod yn cynyddu'r buddion i'r Sefydliad yn y dyfodol, ac os felly, caiff ei gyfalafu a'i ddibrisio ar y sail berthnasol.

Offer

Caiff offer sy'n costio llai na £1,000 fesul eitem unigol ei gydnabod fel gwariant yn y cyfnod y caiff ei brynu. Caiff unrhyw offer arall ei gyfalafu ar sail y gost.

Caiff offer a etifeddwyd ac offer arall wedi'i gyfalafu ei ddibrisio ar sail llinell syth dros weddill ei oes economaidd ddefnyddiol fel a ganlyn:

- Offer Cyffredinol — 5 mlynedd / 20% y flwyddyn
- Offer Cyfrifiadurol — 4 blynedd / 25% y flwyddyn
- Cerbydau Modur — 5 mlynedd / 20% y flwyddyn
- Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau — 5 mlynedd / 20% y flwyddyn

Cynhelir adolygiad o leihad yng ngwerth ased sefydlog os bydd digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn awgrymu'r posibilrwydd na ellir adennill swm cario ymlaen unrhyw ased sefydlog. Caiff lleihad rhwng gwerth cario ymlaen asedau sefydlog a'u symiau adferadwy eu cydnabod fel diffygiant. Cydnabyddir colledion diffygiant yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Costau benthyg

Cydnabyddir costau benthyg fel gwariant yn y cyfnod y cânt eu gwario.

Asedau sy'n cael eu prydlesu

Codir costau sy'n ymwneud â phrydlesi gweithredol ar sail llinell syth dros dymor y brydles i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff unrhyw bremiymau prydlesi neu gymhellion yn gysylltiedig â phrydlesi a lofnodwyd ar ôl 1af Awst 2014 eu gwasgaru dros dymor lleiaf y brydles.

Nid oes gan y Sefydliad unrhyw brydlesi cyllid.

Buddsoddiadau a Gwaddolion

Caiff buddsoddiadau rhestredig a ddelir fel buddsoddiadau asedau cyfredol sy'n ymwneud ag asedau gwaddol eu datgan ar werth teg, a chydnabyddir symudiadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Caiff y gwaddolion at ddibenion cyffredinol eu hystyried yn fuddsoddiad yn y fantolen yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir: *Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019* (SORP AB AU 2019).

Datganiad o bolisïau cyfrifyddu (parhau)

Stociau

Nid oes gan y Sefydliad stociau.

Arian parod a chywerthoedd arian parod

Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, adneuon sy'n ad-daladwy ar gais, a gorddrafftiau. Mae adneuon yn ad-daladwy ar gais os ydynt ar gael o fewn 24 awr heb gosb.

Mae cywerthoedd arian parod yn fuddsoddiadau tymor byr, hynod hylifol y gellir eu trosi'n rhwydd i symiau hysbys o arian parod heb risg o bwys i newid mewn gwerth. Ystyrir bod gan fuddsoddiad gywerthedd arian parod pan fydd yn aeddfedu 3 mis neu lai o'i ddyddiad caffael. Nid oedd gan y Sefydliad unrhyw gywerthoedd arian parod yn ystod y flwyddyn.

Rhwymedigaethau ariannol ac ecwiti

Caiff rhwymedigaethau ariannol ac ecwiti eu dosbarthu yn ôl sylwedd rhwymedigaethau cytundebol yr offeryn ariannol, yn hytrach na ffurf gyfreithiol yr offeryn ariannol.

Caiff yr holl fenthyciadau, buddsoddiadau ac adneuon tymor byr a ddelir gan y Sefydliad eu hystyried yn offerynnau ariannol sylfaenol yn unol ag FRS 102. Yn y lle cyntaf, cofnodir yr offerynnau hyn ar bris y trafodyn llai unrhyw gostau trafod (cost hanesyddol). Mae'n ofynnol yn ôl FRS 102 bod offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu mesur wedi hynny ar gost wedi'i hamorteiddio, fodd bynnag, mae'r Sefydliad wedi cyfrifo nad yw'r gwahaniaeth rhwng y gost hanesyddol a'r gost wedi'i hamorteiddio yn sylweddol ac felly mae'r offerynnau ariannol hyn wedi eu nodi ar y fantolen yn ôl cost hanesyddol.

Trosi arian tramor

Caiff trafodion a wneir mewn arian tramor eu cofnodi gan ddefnyddio'r cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodyn. Nid oedd unrhyw asedau ariannol a rhwymedigaethau wedi'u henwi mewn arian tramor ar ddiwedd y flwyddyn.

Trethiant

Ystyrir bod y Sefydliad wedi pasio'r profion a amlinellir ym Mharagraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010 ac, felly, mae'n bodloni'r diffiniad o gwmni elusennol at ddibenion treth gorfforaeth y Deyrnas Unedig. Yn unol â hynny, mae'r Sefydliad wedi'i eithrio o bosibl rhag talu treth ar incwm neu enillion cyfalaf a gafwyd o fewn categorïau a ddaw o dan sylw adrannau 478-488 Deddf Treth Gorfforaeth 2010 neu Adran 256 Deddf Trethu Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y bo incwm neu enillion o'r fath yn cael eu defnyddio at ddibenion elusennol yn unig.

Yn ogystal, mae'r Sefydliad wedi'i eithrio mewn perthynas â Threth ar Werth ar yr holl wasanaethau y mae'n eu darparu ac felly nid yw'n gallu adennill TAW a delir ganddo ar nwyddau a gwasanaethau a brynir. Mae TAW na ellir ei hadennill ar fewnbynnau wedi'i chynnwys yng nghostau mewnbynnau o'r fath ac wedi'i hychwanegu at gost asedau sefydlog diriaethol fel y bo'n briodol, lle y bo'r mewnbynnau eu hunain yn asedau sefydlog diriaethol eu natur.

Darpariaethau a rhwymedigaethau digwyddiadol

Cydnabyddir darpariaethau

- pan fydd gan y Sefydliad rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol,
- pan fydd yn debygol y bydd angen trosglwyddo budd economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth, a
- phan ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Datganiad o bolisïau cyfrifyddu (parhau)

Pan fo effaith gwerth amser arian yn berthnasol, cydnabyddir y swm y disgwylir y bydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth yn ôl ei werth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio cyn treth. Caiff dad-ddirwyn y disgownt ei gydnabod fel cost ariannol yn y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y cyfnod pan fydd yn digwydd.

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n peri rhwymedigaeth bosibl i'r Sefydliad y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau os bydd digwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt o fewn rheolaeth lwyr y Sefydliad yn digwydd ai peidio. Mae rhwymedigaethau digwyddiadol yn codi hefyd mewn amgylchiadau pan fyddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif adnoddau neu ni all swm y rhwymedigaeth gael ei fesur yn ddibynadwy.

Ni chaiff rhwymedigaethau digwyddiadol eu cydnabod ar y fantolen ond cânt eu datgelu yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Dyfarniadau wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu a ffynonellau allweddol ansicrwydd amcangyfrif

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae rheolwyr wedi gwneud y dyfarniadau canlynol:

- Penderfynu a yw prydlesi y mae'r Sefydliad wedi cytuno iddynt naill ai fel prydleswr neu ddeiliad prydles yn brydlesi gweithredol neu ariannol. Mae'r penderfyniadau hyn yn dibynnu ar asesu p'un ai a yw risgiau a gwobrwyon perchenogaeth wedi'u trosglwyddo o'r prydleswr i'r deiliad prydles fesul prydles unigol.
- Penderfynu a oes arwyddion o leihad yng ngwerth asedau diriaethol y Sefydliad, yn cynnwys ewyllys da. Mae ffactorau a ystyrir wrth ddod i'r cyfryw benderfyniad yn cynnwys hyfywedd economaidd a pherfformiad ariannol disgwyliedig yr ased yn y dyfodol a, phan fo'n elfen o uned fwy sy'n creu arian, hyfywedd a pherfformiad disgwyliedig yr uned honno yn y dyfodol.

Ffynonellau allweddol eraill ansicrwydd amcangyfrif

- ***Asedau sefydlog diriaethol***

Caiff asedau sefydlog diriaethol, heblaw am eiddo buddsoddi, eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol gan ystyried gwerthoedd gweddilliol, lle bo'n briodol. Asesir oes wirioneddol yr asedau a'r gwerthoedd gweddilliol yn flynyddol a gallant amrywio yn ddibynnol ar nifer o ffactorau. Wrth ailasesu oes asedau, caiff ffactorau fel arloesedd technolegol a rhaglenni cynnal a chadw eu hystyried. Mae asesiadau o werthoedd gweddilliol yn ystyried materion fel amodau'r farchnad yn y dyfodol, oes yr ased sy'n weddill a gwerthoedd gwaredu rhagamcanol.

- ***Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol***

Mae gwerth presennol rhwymedigaeth buddion diffiniedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn dibynnu ar nifer o ffactorau a bennir ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio amrywiaeth o ragdybiaethau. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir i bennu'r gost net (incwm) ar gyfer pensiynau yn cynnwys y gyfradd ddisgownt. Bydd unrhyw newidiadau i'r rhagdybiaethau hyn, a ddatgelir yn nodyn 33, yn effeithio ar swm cario ymlaen y rhwymedigaeth bensiwn. At hynny, mae dull dwyn ymlaen sy'n rhagamcanu canlyniadau o'r prisiad actiwaraidd llawn ddiweddaraf a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2019 wedi'i ddefnyddio gan yr actiwari wrth brisio'r rhwymedigaeth bensiynau ar 31 Gorffennaf 2021. Byddai unrhyw wahaniaethau rhwng y ffigurau a ddeilliwyd o'r dull dwyn ymlaen a phrisiad actiwaraidd llawn yn effeithio ar swm cario ymlaen y rhwymedigaeth bensiwn.

Nodiadau i'r cyfrifon (parhau)

		Nodyn	2022 £'000	2021 £'000
2	**Grantiau Llywodraeth Cymru (LlC)**			
	Grant Rheolaidd Prif Ffrwd LlC		5,665	5,456
	Grant Rheolaidd arall LlC		201	416
	Rhyddhau grantiau cyfalaf LlC	**22**	122	105
	Cyllid Cynnal, Digidol, SOP a Chyllid Cyfalaf LlC		684	417
	Grantiau anrheolaidd LlC		1,147	190
	Cyfanswm		**7,819**	**6,584**
3	**Ffïoedd Dysgu a Chontractau Addysg**			
	Contractau Addysg		54	37
	Ffïoedd Dysgu		286	296
	Ffïoedd eraill yn cynnwys ffïoedd arholi		6	3
	Cyfanswm		**346**	**336**
4	**Grantiau a Chontractau Eraill**			
	Cronfa Gymdeithasol Ewrop		(5)	55
	Grantiau a Chontractau Eraill		547	333
	Cyfanswm		**542**	**388**
5	**Incwm Arall**			
	Rhyddhau grantiau cyfalaf eraill y llywodraeth	**22**	-	-
	Tanysgrifiadau, Cysylltiadau, Cyfraniadau unigol		3	2
	Rhentu ystafelloedd		12	-
	Incwm amrywiol arall		4	7
	Cyfanswm		**19**	**9**
6	**Incwm Canghennau**		**13**	**3**
7	**Incwm Buddsoddi**			
	Llog derbyniadwy		3	2
	Cyfanswm		**3**	**2**
8	**Adenillion net ar gynllun pensiwn**	**33**	-	-
9	**Rhoddion**		-	-

Nodiadau i'r cyfrifon (parhau)

10 Niferoedd a chostau staff

Dyma niferoedd cyfartalog y staff (gan gynnwys personél rheoli allweddol) a gyflogid gan y Sefydliad yn ystod y flwyddyn, a ddisgrifir fel cyfwerth ag amser llawn:

	Nodyn	Blwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2022	Blwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2021
Adrannau Addysgu a Dysgu		209	188
Gwasanaethau cymorth addysgu a dysgu		11	9
Gwasanaethau cymorth eraill		28	36
Gweinyddu a gwasanaethau canolog		34	34
Addysg Gyffredinol		1	1
Safleoedd		3	2
Cyfanswm niferoedd cyfartalog y staff		**286**	**270**

Costau Staff ar gyfer yr unigolion uchod			**2022 £'000**	**2021 £'000**
Cyflogau			4,368	4,051
Costau nawdd cymdeithasol			391	337
Costau pensiwn eraill	**33**		1,798	1,607
Isgyfanswm y gyflogres			**6,556**	**5,995**
Gwasanaethau staffio wedi'u contractio allan			779	62
			7,335	**6,057**
Costau ailstrwythuro		Contractiol	46	125
		Anghontractiol	108	121
Cyfanswm costau Staff			**7,489**	**6,303**

Mae trefniadau aberthu cyflog ar waith gan y sefydliad ar gyfer Cynllun Beicio.

11 Personél rheoli allweddol

Personél rheoli allweddol yw'r unigolion hynny sydd â'r awdurdod a'r cyfrifoldeb am gynllunio, cyfeirio a rheoli gweithgareddau'r Sefydliad ac fe'u cynrychiolir gan yr Uwch Dîm Rheoli (UDRh) sy'n cynnwys y Prif Weithredwr (Swyddog Cyfrifyddu), y Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad a Phennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau am y cyfnod yn diweddu 31 Gorffennaf 2022.

Nodiadau i'r cyfrifon (parhau)

11 Personél rheoli allweddol (parhau)

Enillion Personél rheoli allweddol, Swyddog Cyfrifyddu a staff eraill sy'n ennill cyflog uwch

	2022 Nifer	2021 Nifer
Nifer y personél rheoli allweddol, gan gynnwys y Swyddog Cyfrifyddu, oedd:	**3**	**3**

Nifer y personél rheoli allweddol a staff eraill a gafodd enillion blynyddol, ac eithrio cyfraniadau cyflogwyr at yswiriant gwladol a phensiynau, ond yn cynnwys buddion mewn nwyddau, yn yr ystodau canlynol oedd:

	Personél rheoli allweddol		Staff eraill	
	2022 Nifer	2021 Nifer	2022 Nifer	2021 Nifer
£50,001 i £55,000 y fl.	-	-	-	-
£55,001 i £60,000 y fl.	2	2	-	-
£60,001 i £65,000 y fl.	-	-	-	-
£65,001 i £70,000 y fl.	-	-	-	-
£70,001 i £75,000 y fl.	-	-	-	-
£75,001 i £80,000 y fl.	-	-	-	-
£80,001 i £85,000 y fl.	1	1	-	-
	3	**3**	**-**	**-**

Mae iawndal personél rheoli allweddol yn cynnwys y canlynol:

	2022 £'000	2021 £'000
Cyflog sylfaenol	200	194
Buddion mewn nwyddau	-	-
	200	**194**
Cyfraniadau Pensiwn	63	57
Cyfanswm iawndal personél rheoli allweddol	**263**	**252**

Mae'r iawndal uchod yn cynnwys symiau a dalwyd i'r Prif Weithredwr, sef y Swyddog Cyfrifyddu a'r aelod o staff sy'n cael y tâl uchaf. Mae ei chyflog a'i thâl cydnabyddiaeth fel a ganlyn:

Nodiadau i'r cyfrifon (parhau)

11 Personél rheoli allweddol (parhau)

	2022 £'000	2021 £'000
Cyflog Sylfaenol	84	83
Buddion mewn nwyddau	-	-
Cyfraniadau Pensiwn	27	25
	111	**108**

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'i rwymedigaethau o dan gyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn 2017, 'Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru'. Mae'r Prif Weithredwr yn adrodd i Gadeirydd ac Is-Gadeiryddion y Cyngor, a gynhaliodd adolygiad blynyddol o berfformiad yn erbyn nodau'r Sefydliad yn 2020-21, gan ddefnyddio mesurau perfformiad ansoddol a meintiol. Mae tâl cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr, fel uwch ddeiliad-swydd, yn destun ystyriaeth flynyddol gan y Pwyllgor Chwilio, sy'n penderfynu p'un a yw setliadau costau byw neu gynyddrannau eraill yn cael eu cymhwyso iddi.

Perthynas cyflog a thâl cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr wedi'u mynegi fel lluosrif:

	2022 £'000	2021 £'000
Cyflog Sylfaenol y Prif Weithredwr fel lluosrif o incwm canolrif holl staff AOC|ALW	**2.9**	**2.9**
Cyfanswm enillion y Prif Weithredwr fel lluosrif o incwm canolrif holl staff AOC|ALW	**3.9**	**3.6**

Mae'r uchod wedi'i gyfrifo ar sail cyflogau cyfwerth ag amser llawn ar gyfer yr holl staff ar gyflog a staff a delir fesul awr. Mae cyfanswm yr enillion ar gyfer y Prif Weithredwr wedi'u ffurfio o gyflog sylfaenol a chyfraniadau

Iawndal am golli swydd a dalwyd i gyn bersonél rheoli allweddol

	2022 £'000	2021 £'000
Iawndal a dalwyd i gyn ddeiliaid-swydd - contractiol	-	-
Iawndal a dalwyd i gyn ddeiliaid-swydd - anghontractiol	-	-
Gwerth amcangyfrifedig buddion eraill, yn cynnwys darpariaethau ar gyfer buddion pen	-	-
Nifer y deiliaid swydd	-	-

O blith aelodau'r Corff Llywodraethu, pedwar aelod staff (ymddiswyddodd dau ar 30 Ebrill 2022); oedd yr unig Lywodraethwyr a oedd yn cael tâl fel cyflogeion y Sefydliad yn ystod y flwyddyn. Treuliau teithio a chynhaliaeth a gafwyd wrth gyflawni eu dyletswyddau a ad-dalwyd i bob Llywodraethwr arall.

Nodiadau i'r cyfrifon (parhau)

12 Treuliau gweithredu eraill	Nodyn	2022 £'000	2021 £'000
Costau addysgu			
Costau heb fod yn gostau addysgu:		115	61
Gwasanaethau cymorth addysgu			
Gwasanaethau cymorth eraill		157	134
Gweinyddu a gwasanaethau canolog		68	83
Addysg Gyffredinol yn cynnwys Marchnata a Hyrwyddo		754	495
Costau Safleoedd		62	90
Ymgynghori		610	348
Gwariant Canghennau		34	43
Cyfanswm		13	8
		1,813	**1,262**

Mae treuliau gweithredu eraill yn cynnwys:

Tâl Archwilwyr:		£'000	£'000	£'000	£'000
Archwilio allanol	Ariannol	10		10	
	Arall	4		4	
			14		**14**
Archwilio mewnol			**7**		**9**

13 Llog a chostau cyllid eraill

		2022 £'000	2021 £'000
Llog net ar rwymedigaeth bensiwn ddiffiniedig	**33**	86	85
Llog ar fenthyciadau banc, gorddrafftiau a benthyciadau eraill		-	-
Prydlesi Cyllid		-	-
Cyfanswm		**86**	**85**

14 Trethiant

Nid yw'r ymddiriedolwyr o'r farn bod y Sefydliad, fel elusen gofrestredig, yn atebol am dalu unrhyw dreth gorfforaeth yn deillio o'i weithgareddau yn ystod y ddwy flwyddyn.

15 Gwarged/(diffyg) ar Weithrediadau sy'n Parhau ar gyfer y cyfnod

	2022 £'000	2021 £'000
Gwarged / (diffyg) y Sefydliad ar gyfer y flwyddyn	**(793)**	**(471)**

Nodiadau i'r cyfrifon (parhau)

16 Asedau Sefydlog Diriaethol	Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliadol £'000	Tir ac Adeiladau ar Brydles Hir £'000	Gwelliannau i Eiddo £'000	Offer £'000	Dodrefn, Gosodiadau a Ffitiadau £'000	Cerbydau Modur £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu brisiad							
Ar 1 Awst 2021	1,304	-	246	1,475	66	-	**3,091**
Ychwanegiadau	-	-	-	93	23	-	**116**
Addasiadau	-	-	-	(156)	-	-	(156)
Gwarediadau	-	-	-	-	-	-	-
Ar 31 Gorffennaf 2022	**1,304**	**-**	**246**	**1,412**	**89**	**-**	**3,051**
Dibrisiant							
Ar 1 Awst 2021	707	-	139	1,392	61	-	**2,299**
Tâl am y flwyddyn	35	-	30	76	6	-	**147**
Addasiadau	-	-	-	(156)	-	-	**(156)**
Gwarediadau	-	-	-	-	-	-	-
Ar 31 Gorffennaf 2022	**742**	**-**	**169**	**1,312**	**67**	**-**	**2,290**
Llyfrwerth Net ar 31 Gorff. 2022	**562**	**-**	**77**	**100**	**22**	**-**	**761**
Llyfrwerth Net ar 31 Gorff. 2021	597	-	107	83	5	-	792

Nid yw Llyfrwerth Net offer yn cynnwys unrhyw symiau mewn perthynas ag asedau a ddelir o dan brydlesi cyllid.

17 Buddsoddiadau

Asedau Gwaddol	**2022 £'000**	**2021 £'000**
Balans ar 1 Awst	1,559	1,289
Prynu asedau	-	110
Gwerthu asedau	-	(126)
Ailbrisio asedau gwaddol	-	-
Arbrisiant/(Dibrisiant) buddsoddiadau asedau gwaddol	(84)	267
Symudiad mewn balansau arian	4	19
Balans ar 31 Gorffennaf	**1,479**	**1,559**
Cynrychiolir gan:		
Ecwitïau, Bondiau, Arall	1,264	1,348
Arian parod ac adneuon	65	61
Tir	150	150
	1,479	**1,559**

18 Symiau masnach a symiau eraill derbyniadwy

	2022 £'000	**2021 £'000**
Symiau sy'n dod yn ddyledus ymhen un flwyddyn:		
Symiau masnach derbyniadwy	114	34
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	260	498
	374	**532**

Nodiadau i'r cyfrifon (parhau)

19	Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn		2022	2021
			£'000	£'000
		Nodiadau		
	Symiau masnach sy'n daladwy		115	74
	Trethiant arall a nawdd cymdeithasol		105	92
	Croniadau - gwyliau blynyddol		120	125
	Croniadau - arall		1,785	1,302
	Incwm gohiriedig - grantiau cyfalaf y llywodraeth	22	90	56
	Incwm gohiriedig - refeniw'r llywodraeth		361	415
	Incwm gohiriedig - arall		530	538
	Cyfanswm		**3,106**	**2,602**

20	Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn			
	Incwm gohiriedig - grantiau cyfalaf y llywodraeth	22	170	212
	Cyfanswm		**170**	**212**

21	Darpariaethau	Rhwymedigaeth au buddion diffiniedig	Pensiynau uwch	Cyfanswm
		£'000	£'000	£'000
	Ar 1 Awst 2021	5,376	25	5,401
	Gwariant yn y cyfnod	(762)	(6)	(768)
	Ychwanegiadau yn y cyfnod	(7,024)	-	(7,024)
	Ar 31 Gorffennaf 2022	**(2,410)**	**19**	**(2,391)**

Mae'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn gysylltiedig â'r rhwymedigaethau yn sgil aelodaeth y Sefydliad o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Rhoddir manylion pellach yn Nodyn 33.

Mae'r ddarpariaeth pensiwn uwch yn ymwneud â chostau rhagamcanedig mewn perthynas â 3 chyn-aelod o staff Coleg Harlech a adawodd ei gyflogaeth, trwy drefniant, cyn yr uno â WEA (Gogledd Cymru) yn 2001. Yn sgil ansicrwydd ynghylch disgwyliad oes, ni ellir proffilio'r ddarpariaeth pensiwn uwch.

22	Incwm gohiriedig - Grantiau Cyfalaf y Llywodraeth	£'000
	Ar 1 Awst 2021	268
	Cyllid ychwanegol a dderbyniwyd	114
	Rhyddhawyd i'r cyfrif incwm a gwariant	(122)
	Ar 31 Gorffennaf 2022	**260**

Nodiadau i'r cyfrifon (parhau)

23 Gwaddolion

Cyfnod yn Diweddu 31 Gorffennaf 2022

	Cyfyngedig	Anghyfyngedig			
	Cronfa Llyfrau, Gwobrau a Deunyddiau Cymorth Dysgu	Cronfa Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau	Cronfa Llyfrau, Gwobrau a Deunyddiau Cymorth Dysgu	Cronfa Dibenion Cyffredinol	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar 1 Awst 2021 fel y datganwyd yn flaenorol	**1,215**	**226**	**81**	**37**	**1,559**
Arbrisiant mewn Buddsoddiadau Gwaddol	(70)	(5)	(6)	(3)	(84)
Incwm Buddsoddi ar gyfer y flwyddyn	12	1	1	1	15
Tynnwyd o Waddolion	-	-	-	-	-
Treuliau Rheoli Buddsoddiadau	(9)	(1)	(1)	-	(11)
Ar 31 Gorffennaf 2022	**1,148**	**221**	**75**	**35**	**1,479**
Rhaniad mewn Gwaddolion					
Buddsoddiadau Gwaddolion	1,148	71	75	35	1,329
Asedau Sefydlog Gwaddolion	-	150	-	-	150
	1,148	**221**	**75**	**35**	**1,479**

Mae'r Gwaddolion Asedau Sefydlog o £150,000 uchod yn cyfeirio at dir a berchenogir yn Astor Fields, Harlech. Rhoddwyd hwn yn rhodd i'w ddefnyddio fel ased cyffredinol y Sefydliad. Mae £181,000 arall o'r Buddsoddiadau Gwaddolion (wedi'u rhannu rhwng pob un o'r tair Cronfa ddiffiniedig) yn anghyfyngedig o ran eu defnydd. Mae penawdau'r cronfeydd anghyfyngedig yn adlewyrchu penderfyniadau hanesyddol gan Gymdeithas Addysg y Gweithwyr Gogledd Cymru Coleg Harlech.

Mae mwyafrif o'r cyfanswm Gwaddolion, fodd bynnag, wedi'i ffurfio o Gronfa Tudor Bowen Jones: mae hon yn gronfa gyfyngedig o £1,148,000 sydd wedi'i chynnwys yn y Gronfa Llyfrau, Gwobrau a Deunyddiau Cymorth Dysgu uchod. O dan delerau ewyllys y cymwynaswr, mae'r swm cyfalaf gwreiddiol a sefydlodd y Gronfa i'w gadw'n gyflawn gan y Sefydliad hyd 2091. Gellir tynnu'r incwm ar y gwaddol cyfalaf gwreiddiol hwnnw i lawr er mwyn darparu adnoddau a deunyddiau addysgol ar gyfer Llyfrgell Tudor Bowen Jones. Yn 2021/22: dim (2020/21: dim) o'r incwm hwn i brynu'r cyfryw ddeunyddiau.

Cyfnod yn Diweddu 31 Gorffennaf 2021

	Cyfyngedig	Anghyfyngedig			
	Cronfa Llyfrau, Gwobrau a Deunyddiau Cymorth Dysgu	Cronfa Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau	Cronfa Llyfrau, Gwobrau a Deunyddiau Cymorth Dysgu	Cronfa Dibenion Cyffredinol	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar 1 Awst 2020 fel y datganwyd yn flaenorol	**971**	**216**	**70**	**32**	**1,289**
Arbrisiant mewn Buddsoddiadau Gwaddol	241	10	11	5	267
Incwm Buddsoddi ar gyfer y flwyddyn	12	1	1	-	14
Tynnwyd o Waddolion	-	-	-	-	-
Treuliau Rheoli Buddsoddiadau	(9)	(1)	(1)	-	(11)
Ar 31 Gorffennaf 2021	**1,215**	**226**	**81**	**37**	**1,559**
Rhaniad mewn Gwaddolion					
Buddsoddiadau Gwaddolion	1,215	76	81	37	1,409
Asedau Sefydlog Gwaddolion	-	150	-	-	150
	1,215	**226**	**81**	**37**	**1,559**

Nodiadau i'r cyfrifon (parhau)

24	Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod	1 Awst 2021	Llifoedd arian	31 Gorffennaf 2022
		£'000	£'000	£'000
	Arian parod a chywerthoedd arian parod	5,205	689	5,894
	Cronfeydd Cyfyngedig	10	-	10
	Buddsoddiadau Asedau Gwaddol	61	4	65
	Cyfanswm	**5,276**	**693**	**5,969**

25	Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod	Note	2022 £'000	2021 £'000
	Arian parod		1	-
	Cyfrifon Banc y Co-op		-	-
	Cyfrifon Banc Handelsbanken		4,452	3,772
	Cyfrifon Banc Canghennau		25	25
	Cyfrifon Banc Barclays		410	405
	Cymdeithas Adeiladu Nationwide		1,006	1,003
			5,894	**5,205**
	Cyfrifon Cronfeydd Cyfyngedig:			
	Cyfrif Cronfa Keith Evans		5	5
	Cyfrif Cronfa Alwyn Evans		5	5
	Cyfrif Cronfa Dil Llewellyn		-	-
	Cyfanswm arian parod a chywerthoedd arian parod		**5,904**	**5,215**

26 Symudiadau'r Cronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn

Cronfa'r Cyfrif Incwm a Gwariant Wrth Gefn		2022 £'000	2021 £'000
Ar 1 Awst		(1,711)	(2,843)
Gwarged am y flwyddyn ar weithrediadau sy'n parhau		(793)	(471)
Trosglwyddo o/(i) gronfeydd wrth gefn canghennau		-	7
Ennill ar waredu asedau		-	-
Ennill/ (colled) actiwaraidd mewn perthynas â'r cynllun pensiwn	**33**	8,623	1,596
		6,119	**(1,711)**
Cronfeydd wrth gefn y Canghennau			
Ar 1 Awst		25	31
Symudiad am y flwyddyn		-	(6)
		25	**25**
Cyfanswm y gronfa gyffredinol wrth gefn		**6,144**	**(1,686)**
Cynrychiolir y Balans gan:			
Cronfa Bensiwn wrth Gefn (FRS 102 (28))	**33**	2,410	(5,376)
Cronfa'r cyfrif incwm a gwariant wrth gefn ac eithrio'r gronfa bensiwn wrth gefn		3,734	3,690
Ar 31 Gorffennaf		**6,144**	**(1,686)**

Nodiadau i'r cyfrifon (parhau)

26	**Cronfeydd Cyfyngedig Wrth Gefn**	**2022**	**2021**
		£'000	**£'000**
	Cyfrif Cronfa Keith Evans (Ysgol Haf/Ysgoloriaethau)	5	5
	Cyfrif Cronfa Alwyn Evans (Preswyl/Ysgoloriaethau)	5	5
	Cyfrif Cronfa Dil Llewellyn	-	-
	Ar 31 Gorffennaf	**10**	**10**

27	**Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn**	**2022**	**2021**
		£'000	**£'000**
	Ar 1 Awst	-	-
	Trosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn mewn perthynas ag Ailbrisio asedau	-	-
	Ar 31 Gorffennaf	**-**	**-**

28 Ymrwymiadau Cyfalaf, Hapddigwyddiadau ac Eitemau Eithriadol

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf a hapddigwyddiadau ar ddiwedd y flwyddyn nac eitemau eithriadol yn

29 Rhwymedigaethau Prydles

Ar 31 Gorffennaf, roedd gan y Sefydliad daliadau prydles lleiaf o dan brydlesi gweithredu na ellir eu canslo, fel a ganlyn:

Taliadau prydles leiaf sy'n ddyledus yn y dyfodol	**2022**	**2021**
	£'000	**£'000**
Tir ac adeiladau		
Ddim yn ddiweddarach nag un flwyddyn	69	66
Diweddarach nag un flwyddyn a ddim yn ddiweddarach na phum mlynedd	70	112
Diweddarach na phum mlynedd	-	-
	139	**178**
Arall		
Ddim yn ddiweddarach nag un flwyddyn	13	12
Diweddarach nag un flwyddyn a ddim yn ddiweddarach na phum mlynedd	11	16
Diweddarach na phum mlynedd	-	-
	24	**28**

30 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd.

Nodiadau i'r cyfrifon (parhau)

31 Trafodion gyda Phartïon Cysylltiedig

Oherwydd natur gweithrediadau'r Sefydliad a bod aelodau'r Corff Llywodraethu yn cael eu penodi o sefydliadau lleol y sector cyhoeddus a'r sector preifat, mae'n anochel y bydd trafodion yn digwydd gyda mudiadau y gall aelod o'r Corff Llywodraethu fod â buddiant ynddynt. Cynhelir yr holl drafodion sy'n ymwneud â sefydliadau o'r fath o bellter hyd braich ac yn unol â rheoliadau ariannol a gweithdrefnau caffael arferol y Sefydliad.

Cyfanswm y treuliau a dalwyd i Lywodraethwyr yn ystod y flwyddyn oedd £379; 22 o Lywodraethwyr (2021: dim; 23 Llywodraethwr). Mae hyn yn cynrychioli treuliau teithio a chynhaliaeth a threuliau parod eraill yr eir iddynt wrth fynychu cyfarfodydd Llywodraethwyr a digwyddiadau elusennol yn rhinwedd eu swydd.

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd 4 o staff-Lywodraethwyr (2 wedi ymddiswyddo 30 Ebrill 2022, 2 yn cychwyn ar eu dyletswyddau ar 14 Mehefin 2022) dâl gan y Sefydliad hyd at £31,098 (2021: 3 aelod o staff Llywodraethwyr; £33,530). Nid oes unrhyw Lywodraethwr arall wedi derbyn tâl nac wedi ildio taliadau gan y Sefydliad yn ystod y flwyddyn (2021: dim).

CBS Castell-nedd Port Talbot - Roedd y Cynghorydd Sonia Reynolds (ward Gwauncaegurwen a Brynaman Isaf) yn Llywodraethwr y Mudiad yn ystod y flwyddyn. Cyfanswm y trafodion gwerthu yn ystod y flwyddyn oedd £12,180 (2021: £2,850). Nid oedd unrhyw drafodion prynu yn ystod y flwyddyn (2021: dim) na balansau yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn (2021: dim).

Canolfan Maerdy - Roedd y Cynghorydd Sonia Reynolds yn Llywodraethwr y Mudiad yn ystod y flwyddyn ac yn Gyfarwyddwr Canolfan Maerdy. Cyfanswm y trafodion gwerthu yn y flwyddyn oedd £8,620 (2021: dim). Nid oedd unrhyw drafodion prynu yn ystod y flwyddyn (2021: dim) na balansau yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn (2021: dim).

Wales TUC Cymru - Roedd Marion Burke (Swyddog Polisi, Addysg TUC Cymru) yn Llywodraethwr y Sefydliad yn ystod y flwyddyn ac yn cael ei chyflogi gan TUC Cymru. Cyfanswm y trafodion gwerthu yn ystod y flwyddyn oedd £103,113 (2021: £104,148). Roedd balansau o £26,894 yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn (2021: dim). Cyfanswm y trafodion prynu yn ystod y flwyddyn oedd £700 (2021: dim). Nid oedd unrhyw falansau yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn (2021: dim).

Geirda - Bu Siôn Aled Owen yn Llywodraethwr y Mudiad yn ystod y flwyddyn ac yn berchennog gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd Geirda. Nid oedd unrhyw drafodion gwerthu yn ystod y flwyddyn (2021: dim). Cyfanswm y trafodion prynu yn ystod y flwyddyn oedd £613 (2021: £1,628). Nid oedd unrhyw falansau yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn (2021: dim).

Cyngor Bro Morgannwg - Roedd y Cynghorydd Chris Franks (ward Dinas Powys, o 5 Mai 2022) yn Llywodraethwr y Sefydliad yn ystod y flwyddyn. Cyfanswm y trafodion gwerthu yn y flwyddyn oedd £180 (2021: £300). Cyfanswm y trafodion prynu yn ystod y flwyddyn oedd £2,061 (2021: £1,481). Nid oedd unrhyw falansau yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn (2021: dim).

Cyngor Caerdydd - Bu Caroline Davies yn Llywodraethwr y Sefydliad yn ystod y flwyddyn ac yn gyflogedig gan Gyngor Caerdydd. Cyfanswm y trafodion gwerthu yn y flwyddyn oedd £300 (2021: dim). Cyfanswm y trafodion prynu yn ystod y flwyddyn oedd £5,441 (2021: dim). Nid oedd unrhyw falansau yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn (2021: dim).

32 SYMIAU A DDOSBARTHWYD FEL ASIANT

Cronfa Cymorth Dysgwyr - Cronfa Arian wrth Gefn (CAWG)

	Blwyddyn yn Diweddu 31 Gorffennaf 2022 £'000	Blwyddyn yn Diweddu 31 Gorffennaf 2021 £'000
Grant LlC am y flwyddyn	70	46
Llog a enillwyd	-	-
	70	**46**
Talwyd i drydydd parti *	29	8
Dosbarthwyd i fyfyrwyr **	4	1
Costau eraill yn cynnwys costau gweinyddu	2	2
Balansau heb eu gwario ar 31 Gorffennaf, yn cynnwys incwm cronedig	**35**	**35**

Mae grantiau CAWG Llywodraeth Cymru ar gyfer myfyrwyr cymwys yn unig.

* Pan mae'r Sefydliad wedi talu trydydd parti, mae'r Incwm a'r Gwariant cysylltiedig wedi cael ei gynnwys o fewn Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

** Pan mae'r Sefydliad yn gweithredu fel asiant dalu, caiff y grantiau ac alldaliadau cysylltiedig eu heithrio o'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Nodiadau i'r cyfrifon (parhad)

33 Pensiwn a Rhwymedigaethau Tebyg

Mae cyflogeion y Sefydliad yn aelodau o ddau brif gynllun ôl-gyflogaeth: Cynllun Pensiwn Athrawon Cymru a Lloegr (TPS) ar gyfer staff academaidd a staff cysylltiedig; a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ar gyfer staff nad ydynt yn staff addysgu, a gweinyddir y cynllun hwnnw gan Gyngor Dinas a Sir Caerdydd a Chyngor Gwynedd. Mae'r ddau yn gynlluniau buddion diffiniedig, aml-gyflogwr.

Caiff costau pensiwn eu hasesu yn unol â chyngor actiwarïaid cymwys annibynnol. Cynhaliwyd y prisiad ffurfiol diweddaraf actiwarïaidd o'r TPS ar 31 Mawrth 2016 a'r LGPS ar 31 Mawrth 2019.

Cyfanswm cost pensiwn am y flwyddyn		**2022**		**2021**
		£'000		**£'000**
Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS): cyfraniadau a dalwyd		285		241
Cynllun Pensiwn Aviva		-		-
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:				
Cyfraniadau a dalwyd Caerdydd a Bro Morgannwg (CVG)	584		545	
Cyfraniadau a dalwyd Gwynedd (GC)	178		207	
Tâl FRS 102 (28) Caerdydd a'r Fro	394		382	
Tâl FRS 102 (28) Gwynedd	357		232	
Tâl ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr		**1,512**		**1,366**
Tâl pensiwn uwch a godir ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr		-		-
Cyfanswm Cost Pensiwn am y Flwyddyn o fewn costau staff		**1,798**		**1,607**

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn daladwy na chyfraniadau wedi'u rhagdalu ar ddechrau na diwedd y flwyddyn ariannol (2020/21: dim) wedi'u cynnwys o fewn credydwyr.

Cynllun Pensiwn Athrawon

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn gynllun buddion diffiniedig statudol, cyfrannol, sy'n cael ei reoli gan Reoliadau Cynllun Pensiynau Athrawon 2014. Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i athrawon mewn ysgolion, colegau a sefydliadau addysgol eraill. Mae aelodaeth yn digwydd fel mater o drefn i athrawon a darlithwyr mewn sefydliadau cymwys. Gall athrawon a darlithwyr optio allan o'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

Cynllun nas ariennir yw'r Cynllun Pensiwn Athrawon, ac mae aelodau'n cyfrannu ar sail 'talu wrth ddefnyddio' - caiff y cyfraniadau hyn, ynghyd â'r rhai a wneir gan gyflogwyr, eu credydu i'r Trysorlys o dan drefniadau a reolir gan y Ddeddf uchod. Telir buddion ymddeol a buddion pensiwn eraill gan gronfeydd cyhoeddus a ddarperir gan Senedd y Deyrnas Unedig.

O dan y diffiniad a amlinellir yn FRS 102 (28.11), cynllun pensiwn aml-gyflogwr yw'r Cynllun Pensiwn Athrawon. Ni all y Sefydliad nodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun.

Yn unol â hynny, mae'r Sefydliad wedi manteisio ar yr eithriad yn FRS 102 ac wedi rhoi cyfrif am ei gyfraniadau at y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniad diffiniedig. Mae'r Sefydliad wedi amlinellu uchod y wybodaeth sydd ar gael am y cynllun a'r goblygiadau i'r Sefydliad o ran y cyfraddau cyfraniad a ragwelir.

Caiff y Cynllun Pensiwn Athrawon ei brisio yn unol â rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Pensiwn Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Mae prisiadau yn credydu cyfrif pensiwn athrawon gyda chyfradd enillion wirioneddol gan dybio bod cronfeydd yn cael eu buddsoddi mewn buddsoddiadau tybiannol sy'n cynhyrchu'r gyfradd enillion wirioneddol honno.

Nodiadau i'r cyfrifon (parhau)

33 Pensiwn a Rhwymedigaethau Tebyg (parhau)

Gwnaed yr adolygiad actiwaraidd diweddaraf o'r TPS ar 31 Mawrth 2019. Cyhoeddwyd yr adroddiad prisio gan yr Adran Addysg ym mis Ebrill 2019. Yn y prisiad, adroddwyd bod cyfanswm rhwymedigaethau'r cynllun (pensiynau a delir ar hyn o bryd a chost amcangyfrifedig buddion yn y dyfodol) am wasanaeth i'r dyddiad effeithiol o £218 biliwn, ac roedd yr asedau tybiannol (amcangyfrif cyfraniadau yn y dyfodol ynghyd â'r buddsoddiadau tybiannol a ddelir ar y dyddiad prisio) yn £196 biliwn gan roi diffyg tybiannol o £22 biliwn mewn perthynas â gwasanaeth yn y gorffennol.

O ganlyniad i'r prisiad, gosodwyd cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr newydd ar 23.68% o dâl pensiynadwy o fis Medi 2019 ymlaen (o gymharu â 16.48% yn ystod 2018/19). Mae DfE wedi cytuno i dalu grant cyfraniad cyflogwr at bensiwn athrawon i dalu'r costau ychwanegol yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22.

Mae copi llawn o'r adroddiad prisio a dogfennau ategol ar gael ar wefan y Cynllun Pensiwn Athrawon.

Cyfanswm y costau pensiwn a dalwyd i'r TPS yn ystod y flwyddyn oedd £285,162 (2021: £240,558).

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae'r CPLlL yn gynllun buddion diffiniedig a ariennir, gyda'r asedau'n cael eu dal mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan Ddinas a Sir Caerdydd (CSC) a Chyngor Gwynedd (CG). Cyfanswm y cyfraniadau a wnaed ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022 oedd £942,642, gyda chyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr yn £761,365 a chyfraniadau gweithwyr yn dod i gyfanswm o £181,276. Y cyfraddau cyfrannu y cytunwyd arnynt ar gyfer y dyfodol yw 32.7% o fis Ebrill 2022 ar gyfer CPLlL Caerdydd a Bro Morgannwg a 23.7% ar gyfer CPLlL Gwynedd ar gyfer y Sefydliad ac maent yn amrywio o 5.5% i 12.5% ar gyfer gweithwyr, yn dibynnu ar gyflog.

Yn bennaf oherwydd yr amgylchiadau eithriadol a oedd yn gysylltiedig â phandemig Covid-19, cynyddodd y rhwymedigaeth pensiwn net a gydnabyddir ar y fantolen i £6.3 miliwn ar 31 Gorffennaf 2020 o gymharu â £2.5 miliwn ar 31 Gorffennaf 2019. Roedd hyn yn bennaf oherwydd llai o arenillion ar fondiau corfforaethol (y pennir y gyfradd ddisgownt arnynt) ac enillion cyfnewidiol ar fuddsoddiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Mae gwarged o £2.4 miliwn ar 31 Gorffennaf 2022 o gymharu â rhwymedigaeth o £5.4 miliwn ar 31 Gorffennaf 2021.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - LGPS Caerdydd a Bro Morgannwg

Prif Dybiaethau Actiwaraidd

Mae'r wybodaeth ganlynol yn seiliedig ar brisiad actiwaraidd llawn o'r gronfa ar 31 Mawrth 2019 wedi'i ddiweddaru hyd at 31 Gorffennaf 2021 gan AON:

	Ar 31 Gorffennaf 2022 % yf	Ar 31 Gorffennaf 2021 % yf
Discount rate	3.4	1.7
CPI Inflation	2.5	2.6
Pension Increase	2.5	2.6
Pension accounts revaluation rate	2.5	2.6
Salary increases	3.5	3.6

Tybiaethau ynghylch Marwoldeb

Mae'r tybiaethau presennol ynghylch marwoldeb yn caniatáu'n ddigonol ar gyfer gwelliannau mewn cyfraddau marwoldeb yn y dyfodol. Y disgwyliadau oes tybiedig wrth ymddeol yn 65 oed yw:

	Ar 31 Gorffennaf 2022 blynyddoedd	Ar 31 Gorffennaf 2021 blynyddoedd
Yn ymddeol heddiw		
Gwryw	22.1	22.3
Benyw	24.6	24.7
Yn ymddeol ymhen 20 mlynedd*		
Gwryw	23.2	23.3
Benyw	26.0	26.1

*mae'r ffigurau'n rhagdybio bod aelodau'n 45 oed ar y dyddiad prisio ffurfiol diwethaf

Nodiadau i'r cyfrifon (parhau)

33 Pensiwn a Rhwymedigaethau Tebyg (parhau)

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - LGPS Caerdydd a Bro Morgannwg (parhau)
Dyraniad asedau ac adenillion disgwyliedig ar asedau

	Gwerth ar 31 Gorffennaf 2022		Gwerth ar 31 Gorffennaf 2021	
	%	£'000	%	£'000
Ecwitïau	67.2	6,256	66.5	5,994
Eiddo	7.5	698	6.6	595
Bondiau'r llywodraeth	9.0	838	10.1	910
Bondiau corfforaethol	8.0	745	15.2	1,370
Credyd Aml Ased	5.6	521	-	-
Arian parod	2.7	251	1.6	144
Arall	-	-	-	-
Cyfanswm	**100**	**9,309**	**100**	**9,013**

Cysoni'r statws a ariennir i'r Fantolen

Mae'r swm a gynhwysir yn y fantolen mewn perthynas â'r cynllun pensiwn buddion diffiniedig fel a ganlyn:

	2022 £'000	2021 £'000
Gwerth teg asedau'r cynllun	9,309	9,013
Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	(8,308)	(11,897)
(Rhwymedigaeth)/ased pensiynau net	**1,001**	**(2,884)**

Mae rhaniad y rhwymedigaethau adeg y prisiad diwethaf rhwng y gwahanol gategorïau o aelodau fel a ganlyn:

Aelodau gweithredol	78%
Pensiynwyr Gohiriedig	8%
Pensiynwyr	14%

Mae'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr mewn perthynas â'r cynllun fel a ganlyn:

Symiau wedi'u cynnwys mewn costau staff	2022 £'000	2021 £'000
Costau gwasanaeth presennol	978	911
Costau gwasanaeth yn y gorffennol	-	-
Costau trwy gwtogi	-	16
Cyfanswm	**978**	**927**
Symiau wedi'u cynnwys mewn costau Cyllid (Nodyn 13)		
Llog ar rwymedigaeth / (ased) budd diffiniedig net	44	46
Cyfanswm	**1,022**	**973**
Swm a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall		
Enillion/(colledion) ar asedau yn codi yn ystod y cyfnod	(374)	1,286
Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau yn codi yn ystod y cyfnod	4,697	(160)
Cyfanswm a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall	**4,323**	**1,126**

Nodiadau i'r cyfrifon (parhau)

33 Pensiwn a Rhwymedigaethau Tebyg (parhau)

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - LGPS Caerdydd a Bro Morgannwg (parhau)

Adenillion Gwirioneddol ar Asedau	**2022 £'000**	**2021 £'000**
Incwm llog ar asedau'r cynllun	158	103
Ennill / (colled) ar asedau	(374)	1,286
Adenillion gwirioneddol ar asedau	**(216)**	**1,389**

Symudiad mewn (rhwymedigaeth)/ased buddion diffiniedig net yn ystod y flwyddyn	**2022 £'000**	**2021 £'000**
(Rhwymedigaeth) / ased buddion diffiniedig net yn y cynllun ar 1 Awst	**(2,884)**	**(3,582)**
Symudiad yn ystod y flwyddyn:		
Costau gwasanaeth presennol	(978)	(911)
Costau gwasanaeth yn y gorffennol	-	-
Costau trwy gwtogi	-	(16)
Cyfraniadau gan y cyflogwr	584	545
Llog net ar y (rhwymedigaeth) / ased diffiniedig	(44)	(46)
Ennill / (colled) actiwaraidd	4,323	1,126
(Rhwymedigaeth) / ased buddion diffiniedig net yn y cynllun ar 31 Gorffennaf	**1,001**	**(2,884)**

Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig	**2022 £'000**	**2021 £'000**
Rhwymedigaeth buddion diffiniedig agoriadol	**11,897**	**10,632**
Cost Gwasanaeth Presennol	978	911
Traul llog ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig	202	149
Cyfraniadau gan aelodau'r Cynllun	122	122
(Enillion) / colledion profiad ar rwymedigaethau buddion diffiniedig	(4,697)	160
Buddion net a dalwyd	(194)	(93)
Cost Gwasanaeth yn y Gorffennol	-	-
Cost trwy Gwtogi	-	16
Rhwymedigaeth buddion diffiniedig terfynol	**8,308**	**11,897**

Newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun	**2022 £'000**	**2021 £'000**
Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun	**9,013**	**7,050**
Incwm llog ar asedau'r cynllun	158	103
Enillion / (colledion) ail-fesur ar asedau'r cynllun	(374)	1,286
Cyfraniadau gan y cyflogwr	584	545
Cyfraniadau gan aelodau'r Cynllun	122	122
Buddion net a dalwyd	(194)	(93)
Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun	**9,309**	**9,013**

Cyfraniadau oherwydd diffyg

Ar ôl prisiad tair blynedd ym mis Mawrth 2019, codwyd y gyfradd gyfrannu i 28.9% (20/21), 30.8% (21/22) a 32.7% (22/23) heb unrhyw daliadau diffyg ychwanegol yn ddyledus am y tair blynedd nesaf. Mae'r rhain yn aros i gael eu hadolygu ar sail canlyniadau'r prisiad tair blynedd ym mis Mawrth 2022.

Nodiadau i'r cyfrifon (parhau)

33 Pensiwn a Rhwymedigaethau Tebyg (parhau)

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - LGPS Gwynedd

Prif Dybiaethau Actiwaraidd

Mae'r wybodaeth ganlynol yn seiliedig ar brisiad actiwaraidd llawn o'r gronfa ar 31 Mawrth 2019 wedi'i ddiweddaru hyd at 31 Gorffennaf 2022 gan Hymans Robertson LLP:

	Ar 31 Gorffennaf 2022	Ar 31 Gorffennaf 202
	% yf	% yf
Cyfradd Ddisgowntio	3.5	1.6
Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau	2.75	2.85
Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau	3.05	3.15

Tybiaethau ynghylch Marwoldeb

Mae'r tybiaethau presennol ynghylch marwoldeb yn caniatáu'n ddigonol ar gyfer gwelliannau mewn cyfraddau marwoldeb yn y dyfodol. Y disgwyliadau oes tybiedig wrth ymddeol yn 65 oed yw:

	Ar 31 Gorffennaf 2022	Ar 31 Gorffennaf
	blynyddoedd	blynyddoedd
Pensiynwyr presennol		
Gwryw	21.3	21.5
Benyw	23.7	23.9
Yn ymddeol ymhen 20 mlynedd		
Gwryw	22.4	22.7
Benyw	25.7	25.9

*mae'r ffigurau'n rhagdybio bod aelodau'n 45 oed ar y dyddiad prisio ffurfiol diwethaf

Dyraniad asedau ac adenillion disgwyliedig ar asedau	Gwerth ar 31 Gorffennaf 2022	Gwerth ar 31 Gorffennaf 2021
	%	%
Ecwitïau	71	73
Eiddo	10	8
Bondiau	-	-
Arian parod	19	19
Cyfanswm	**100**	**100**

Cysoni'r statws a ariennir i'r Fantolen

Mae'r swm a gynhwysir yn y fantolen mewn perthynas â'r cynllun pensiwn buddion diffiniedig fel a ganlyn:

	2022	2021
	£'000	£'000
Gwerth teg asedau'r cynllun	9,027	8,667
Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	(7,618)	(11,159)
(Rhwymedigaeth)/ased pensiynau net	**1,409**	**(2,492)**

Nodiadau i'r cyfrifon (parhau)

33 Pensiwn a Rhwymedigaethau Tebyg (parhau)

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - LGPS Gwynedd (parhau)

Mae rhaniad y rhwymedigaethau adeg y prisiad diwethaf rhwng y gwahanol gategorïau o aelodau fel a

Aelodau gweithredol	23%
Pensiynwyr Gohiriedig	38%
Pensiynwyr	39%

Mae'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr mewn perthynas â'r cynllun fel a ganlyn:

	2022	2021
Symiau wedi'u cynnwys mewn costau staff	**£'000**	**£'000**
Cost gwasanaeth presennol	(535)	(439)
Cost gwasanaeth yn y gorffennol	-	-
Cyfanswm	**(535)**	**(439)**
Symiau wedi'u cynnwys mewn Costau cyllid (Nodyn 13)		
Llog net ar rwymedigaeth pensiwn ddiffiniedig	(42)	(39)
Cyfanswm	**(577)**	**(478)**
Swm a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall		
Enillion/(colledion) ar asedau yn codi yn ystod y cyfnod	193	1,460
Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau yn codi yn ystod y cyfnod	4,107	(990)
Cyfanswm a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall	**4,300**	**470**

	2022	2021
Adenillion Gwirioneddol ar Asedau	**£'000**	**£'000**
Incwm llog ar asedau'r cynllun	139	99
Ennill / (colled) ar asedau	193	1,460
Adenillion gwirioneddol ar asedau	**332**	**1,559**

	2022	2021
Symudiad mewn (rhwymedigaeth) / ased buddion diffiniedig net yn ystod y flwyddyn	**£'000**	**£'000**
(Rhwymedigaeth)/ased buddion diffiniedig net yn y cynllun ar 31 Gorffennaf	**(2,492)**	**(2,691)**
Symudiad yn ystod y flwyddyn:		
Costau gwasanaeth presennol	(535)	(439)
Costau gwasanaeth yn y gorffennol	-	-
Cyfraniadau gan y cyflogwr	178	207
Llog net ar y (rhwymedigaeth) / ased diffiniedig	(42)	(39)
Ennill / (colled) actiwaraidd	4,300	470
(Rhwymedigaeth)/ased buddion diffiniedig net yn y cynllun ar 31 Gorffennaf	**1,409**	**(2,492)**

Nodiadau i'r cyfrifon (parhau)

33 Pensiwn a Rhwymedigaethau Tebyg (parhau)

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - LGPS Gwynedd (parhau)	2022 £'000	2021 £'000
Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig		
Rhwymedigaeth buddion diffiniedig agoriadol	**11,159**	**9,745**
Cost Gwasanaeth Presennol	535	439
Cost Gwasanaeth yn y Gorffennol	-	-
Traul llog ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig	181	138
Cyfraniadau gan aelodau'r Cynllun	57	56
(Enillion) / colledion profiad ar rwymedigaethau buddion diffiniedig	(4,107)	990
Buddion net a dalwyd	(207)	(209)
Rhwymedigaeth buddion diffiniedig terfynol	**7,618**	**11,159**

Newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun	2022 £'000	2021 £'000
Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun	**8,667**	**7,054**
Incwm llog ar asedau'r cynllun	139	99
Enillion / (colledion) ail-fesur ar asedau'r cynllun	193	1,460
Cyfraniadau gan y cyflogwr	178	207
Cyfraniadau gan aelodau'r Cynllun	57	56
Buddion net a dalwyd	(207)	(209)
Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun	**9,027**	**8,667**

Ar ôl prisiad tair blynedd ym mis Mawrth 2019, gostyngwyd y gyfradd gyfrannu i 23.7% tan 22/23 heb unrhyw daliadau diffyg ychwanegol yn ddyledus am y cyfnod hwn. Mae'r rhain yn aros i gael eu hadolygu ar sail canlyniadau'r prisiad tair blynedd ym mis Mawrth 2022.

Mae'r ffigurau a ddatgelwyd yn y cyfrifon hyn mewn perthynas â chynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol Caerdydd a'r Fro a Gwynedd yn adlewyrchu effaith y dyfarniad gan McCloud / Sergeant a ddyfarnodd fod y warchodaeth drosiannol i rai aelodau o gynlluniau gwasanaeth cyhoeddus a weithredwyd pan gawsant eu diwygio yn gyfystyr â gwahaniaethu ar sail oed. Mae'r ddarpariaeth hon ychydig o dan 2% o gyfanswm rhwymedigaeth y cynllun ar 31 Gorffennaf 2022. Mae'r cyfrifiad addasu o gostau gwasanaeth blaenorol, sef £7 biliwn, yn deillio o ganlyniad dyfarniad y Llys Apêl yn seiliedig ar nifer o dybiaethau allweddol, yn cynnwys:

- ffurf y rhwymedi a fabwysiadwyd
- sut bydd y rhwymedi yn cael ei weithredu
- pa aelodau yr effeithir arnynt gan y rhwymedi
- y tybiaethau enillion
- y dybiaeth tynnu allan.

Mae'r tybiaethau ariannol a demograffig eraill a fabwysiadwyd i gyfrifo cost gwasanaeth blaenorol yr un fath â'r rheiny a ddefnyddiwyd i gyfrifo rhwymedigaeth gyffredinol y cynllun. Byddai disgwyl i fabwysiadu tybiaethau gwahanol, neu wneud addasiadau eraill i adlewyrchu newidiadau ymddygiadol yn deillio o'r dyfarniad, newid y gost gwasanaeth blaenorol a ddatgelwyd. Yn yr yn modd, disgwylir i ganiatáu ar gyfer amrywiadau mewn gwasanaeth aelodau yn y dyfodol neu gynnydd mewn cyflog gynhyrchu costau uwch. Mae'r gost gwasanaeth blaenorol yn arbennig o sensitif i'r gwahaniaeth rhwng twf cyflog cyffredinol tybiedig yn yr hirdymor â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Pe bai'r tybiaethau twf cyflog hirdymor 0.5% yf yn is, yna byddai disgwyl i'r gost gwasanaeth blaenorol a ddatgelir yma leihau 50% ac, i'r gwrthwyneb, byddai cynnydd o 0.5% yf yn cynyddu'r gost amcangyfrifedig 65%.